Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 10. Rhif 5.] MAI, 1910. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.

Y Beibl: yr hyn yw a'r hyn nad yw.
Parch. Joseph Wood.

Orig gyda Hathren.
Parcwyson, Aberdar.

Y Diweddar Barch. J. Hathren Davies.
D. Charles Jones, Llundain.

Barddoniaeth Islwyn. Sarnicol.

Gogwyddiad yr Ors tuag at Ddigrifwch.
D. Jones, Mydroilyn.

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Priodasau. Marwgofion.

Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Ar werth yn Swyddfa'r 'Ymofynydd.'

LLIN AR LIN:

Penodau'n Hanes a Chrefydd Israel,

— GAN Y —

Parch. J. JENKINS, B.A. (Gwili)

Mewn Llian, 2s. Trwy y Post, 2s. 2c.

ROBIN THE NEW STARCH

Reckitt's Blue.

ZEBRA GRATE POLISH.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1910. [CYF. X. RHIF 5.

AR EDYN FFYDD.

PAID RHOI FYNY!

I.

Dwed yr afon ar y gro
Dwed blodeüyn yn y fro,
Dwed y seren yn ei thro—
Paid rhoi fyny!

Nid yw'r seren yn ymdroi
Am fod cwmwl yn ei thoi:
Dwed ar ol i'r cwmwl ffoi—
Paid rhoi fyny!

Blodyn hâf o'r pridd a dardd,
Cyn i neb ei wel'd yn hardd;
Dywed wrth bereiddio'r ardd—
Paid rhoi fyny!

Wrth lonyddu ar y traeth,
Dwed yr afon, lydan, ddaeth
Trwy gulfeydd y ceunant caeth—
Paid rhoi fyny!

Gwna dy ran, a chei wrth raid
Gread cyfan Duw o'th blaid;
Gwrando lef yr oesau—Paid
Byth rhoi fyny!

II.

Os cei'th glwyfo yn dy waith,
Gad i amser godi'r graith;
Er it' fethu seithwaith saith,
Paid rhoi fyny!

Cei, heb achos, fynych wawd;
A chei glod a'th wna yn dlawd;
Gall mai cam gei gan dy frawd—
Paid rhoi fyny!

Nid yw'r cam yn byw yn hir,
Nid yw gwawd yn berchen tir—
Diwedd gwawd yw dweyd y gwir:
Paid rhoi fyny!

Ond it' gadw calon lân,
Ni chei niwed yn y tân;
Cei'n dy bryder flodau'r gân—
Paid rhoi fyny!

—ELFED.

Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW.

Gan y Parch. Joseph Wood.

Pennod IV. (Parhad).

Y Cyfieithiad Diwygiedig.

Y MAE yn destyn diolch, fod genym o'r diwedd, yn yr iaith Seisnig, Gyfieithiad Diwygiedig o'r Beibl—Beibl yr hwn sydd yn rhydd oddiwrth lawer o lygriadau ac ymadroddion aneglur ag ydynt cyhyd wedi anffurfio ei degwch a'i ystyr. Fel y rhan fwyaf o anturiaethau pwysig bu am amser maith fel pe bae yn yr awyrgylch cyn yr ymgymerwyd ag ef o ddifrif. Er fod duwinyddion, ysgolheigion, a gwŷr llên dysgedig yn hollol wybyddus fod y Cyfieithiad Awdurdodedig yn cynhwys llawer o wallau yn y copi Groeg gwreiddiol a ddefnyddid yn gystal ag yn y cyfieithiad, fod brawddegau wedi cael eu cyfnewid er mwyn attegu rhyw athrawiaethau, fod rhanau wedi cael eu rhoddi i mewn nad oeddynt yn y gwreiddiol, ac yr arddangosai Cyfieithwyr y brenhin Iago yn fynych ogwyddiad athrawiaethol yn hytrach na dysg; etto yr oedd y gwrthwynebiad i gyfnewidiadau mor gryf, ac ofn canlyniadau mor attaliol fel y cafodd y mater ei oedi o bryd i'w gilydd hyd nes na ellid ei ohirio yn mhellach rhag cywilydd. Wrth gwrs, yr oedd llawer o anhawsderau ar y ffordd. Yn mhlith y cyfryw yr oedd y parch a'r serch oeddynt wedi ymgasglu o gwmpas yr hen gyfieithiad, yr hyn a wnai i bobl edrych ar unrhyw ymgais i'w ddiwygio gyda'r un arswyd a phe cynygid dadgymalu corph rhyw gyfaill anwyl iddynt. Ffynai dirgel ofn pe gwneithid adolygiad trwyadl a gonest o'r ysgrythyrau y byddai raid i bobl osod o'r neilldu lawer o'u hen syniadau ac athrawiaethau, y rhai a sylfaenid ar gamsyniadau a chyfieithiadau anghywir. Ambell waith cymerai yr ofn yma ffurf tra ysmala. Yr wyf yn cofio pan yn areithio, yn awr yn agos i ddeugain mlynedd yn ol, gan wneud yr ychydig a allwn yn mhlith fy nghydnabod i greu barn gyhoeddus ar y pwnc, y darfu i un gwr godi ar ei draed, ac mewn llais crynedig gan deimlad, honai na ddylid gosod dwylaw o gwbl ar yr Arch Sanctaidd. Dywedai: "Yr wyf fi yn ddyledus am fy nhroedigaeth i adnod yn un o Epistolau St. Paul. Yn awr, pe gadewid yr adnod hono allan o'r Cyfieithiad Diwygiedig ar y tir mai ffugiad ydyw beth fyddai fy nhynged i?" Beth, yn wir? Wrth gwrs, nid oedd modd ymresymu ag anwybodaeth, dallineb, ac ofn o'r fath yna. Yr oedd rhai yn ofni hefyd y byddai i'r cyfieithiad newydd i amddifadu y Beibl o'i ieithwedd syml, goethus a chymhwys, drwy wneyd defnydd

o eiriau chwyddedig. Yr oedd rhyw sylfaen i'r pryder hwn, oblegid mewn cynygion blaenorol gan bersonau unigol i adgyfieithu y Beibl yr oedd pechodau enbyd yn erbyn chwaeth dda wedi cael eu cyflawni, fel ag i ddwyn gwawd ar eu gwaith. Yn 1768, rhoddodd duwinydd o'r enw Haywood i'r cyhoedd gyfieithiad o'i eiddo ei hun o'r Testament Newydd gyda "rhyddid, bywiogrwydd a thlysni" fel ei desgrifiai. Wele ddwy engraifft o'i welliantau: yn lle "Ni bu farw yr eneth," yn yr Hen Gyfieithiad, rhoddai "Ni bu farw y foneddiges ieuanc"; a chyfnewidiai ddechreu Dammeg y Mab Afradlon: "Yr oedd gan ryw wr ddau fab," i "Yr oedd gan foneddwr o deulu urddasol ac o olud helaeth ddau fab."

Treiodd Benjamin Franklin ei law ar lyfr Job. Yr ydych oll yn cofio yr adnod adnabyddus yn ein Cyfieithiad Awdurdodedig: "Yna Satan a attebodd yr Arglwydd ac a ddywedodd wrtho, Ai yn ddiachos y mae Job yn ofni Duw"? Rhydd Franklin yr adnod fel hyn: "A ydyw eich Mawrhydi yn tybied mai effaith ymlyniad a serch personol yn unig yw ymddygiad rhinweddol Job"?

Mae Esgob Louth yn tramgwyddo yn yr un modd drwy geisio rhoddi Seisneg caboledig yn lle ieithwedd syml y Cyfieithiad Awdurdodedig. Felly, yn ei gyfieithiad o'r ddeugeinfed bennod o Esaiah, yn lle "Dywedwch wrth fodd calon Jerusalem," rhydd "Llefarwch eiriau calonogol wrth Jerusalem."

Drwg genyf gyffesu fod un o'm rhagflaenwyr yn mhwlpud yr Hen-dy-cwrdd, Birmingham, wedi syrthio i'r un pydew. Mewn Llyfr Gweddi wedi ei argraffu ar gyfer y gynulleidfa mae Gwasanaeth Angladdol, gyda chyfieithiad newydd o'r bennod yn Corinthiaid a ddarllenir ar yr achlysuron difrifol hyn. Yr ydych yn cofio y geiriau: "Eithr fe a ddywed rhyw un, pa fodd y cyfodir y meirw, ac a pha ryw gorph y deuant"? Yr ydych hefyd yn cofio y ffordd syml yn yr hon y mae St. Paul yn traethu ei farn am ansawdd feddyliol y sawl a ofynai y fath gwestiwn: "O ynfyd, y peth yr wyt ti yn ei hau," &c. Ond yr oedd "O ynfyd" (*Thou fool*) yn llawer rhy isel mewn chwaeth i foddio ein cyndadau, ac felly cyfieithent y frawddeg —"O ddyn anystyriol." Nid oes ryfedd felly fod pobl yn ofni y possibilrwydd o gael y Beibl mewn iaith o'r natur yma. Hefyd, dywedid nad oedd yr amser eto yn addfed, nad oedd dysgawdwyr yn cytuno mewn perthynas i awdurdod rhyw ddarlleniadau, fod y cyfieithiad oedd genym eisoes wedi ateb pob diben ymarferol am gynifer o flynyddoedd, fel nad oedd eisiau i ni fod mewn brys i'w ddiwygio.

Yn ffortunus, ni allai y rhesymau hyn ddal eu tir mwyach yn erbyn barn gyhoeddus oleuedig. Yn Mehefin, 1870, y dechreuodd y cyfieithwyr eu gwaith.

Rhanwyd hwynt yn ddau gwmni—un ar gyfer yr Hen Destament a'r llall ar gyfer y Testament Newydd. Yr oeddynt yn gyfansoddedig o'r ysgolheigion enwocaf a allasai Prydain Fawr gyflenwi, ac wedi dewis yn ddoeth, yn annibynol ar unrhyw gred neu enwad. Nis gellir anghofio y cyfarfod cymundeb nodedig hwnw yn West-

minster Abbey, pryd, ar wahoddiad Deon Stanley, y cydgyfarfyddodd y cyfieithwyr i erfyn am fendith Duw ar eu llafur, a phan y gwnai Esgobaethwr, Presbyteriad, Annibynwr, Bedyddiwr ac Undodwr, gydblygu glin wrth yr un allor, ac i dderbyn, bawb fel eu gilydd, elfenau coffadwriaethol y ffydd Gristionogol. Y gwaith a ddechreuwyd gyda'r fath obeithion uchel ac mewn yspryd mor rhyddfrydig a gariwyd allan gyda brwdfrydedd, amynedd, tymher a deheurwydd gwir ganmoladwy. Nid oes ond gan ychydig yr un dychymyg am yr amser a'r llafur a roddwyd gan y cyfieithwyr heb geiniog o dâl am eu trafferth. Bu cwmni yr Hen Destament yn llafurio am bymtheng mlynedd. Eisteddasant am 792 o ddiwrnodau, a phob dydd am chwech awr. Eisteddodd cwmni y Testament Newydd am 500 o ddiwrnodau, ac heblaw hyn bu gohebiaeth barhaus a helaeth anghyffredin rhyngddynt a'r cwmni Americanaidd ag oedd yn eistedd ar yr un pryd, a'r canlyniad yw fod genym yn awr yn ein dwylaw rywbeth fel y gwir Feibl. Nid fod pob rhan dywyll wedi ei gwneyd yn eglur eto, na'i fod wedi cael ei benderfynu eto yn mhob achos pa un yw y darlleniad cywir. Yn y Cyfieithiad Diwygiedig mae llawer o nodau ar ymyl y ddalen, y rhai roddant ddarlleniadau *dewisiadol*, ac mewn cynnifer a 1,200 o fannau mae y cwmni Americanaidd yn gwahaniaethu oddi wrth eu brodyr Prydeinig—yr oll wedi eu cofnodi mewn attodiadau ar ddiwedd y gyfrol. Eto, yn nghyflwr presenol gwybodaeth ac uchel ddysg mae genym gyfieithiad ag sydd feallai mor agos i berffeithrwydd ag y gallwn obeithio ei gael.

Mae hwn yn gaffaeliad ac yn llwyddiant yn yr hwn y mae cefnogwyr Cristionogaeth Rydd yn mawr lawenychu. Nid, yn ol natur pethau, ein bod yn debyg o deimlo dyddordeb llawn mor ddwfn mewn cael y cyfieithiad cywiraf o'r copi gwreiddiol goreu o'r Ysgrythyrau ag y dylai ein brodyr Efengylaidd ac iawnffyddol wneud. Oblegid tybiaf fod y rhan fwyaf o honom yn credu fod gwir sylfeini crefydd yn gorphwys yn ddyfnach na Chyfieithiad Awdurdodedig neu Ddiwygiedig, neu Lawysgrif Roeg, neu nodau cynanol yr iaith Hebraeg; eu bod wedi eu hysgrifenu, nid ag ysgrifbin ac inc, na chwaith wedi eu cerfio ar feini, ond yn hytrach wedi eu hargraffu yn annileadwy ar lechau bywiol y galon ddynol.

Tybiaf y byddai i'n crefydd i oroesi, nid yn unig lygriad adnodau o'r Ysgrythyr, ond hyd yn nod ddinystr y Beibl ei hun, a chreai ei hun o'r newydd gyda phob enaid newydd-anedig, canys "eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd." Nid yw hyn yn golygu nad ydym yn teimlo pwysigrwydd a gwerth anfesurol y Beibl, fel cofnodiad o hanes crefyddol dynoliaeth, yn gystal a ffynhonell bywiol ysprydoliaeth. Eto, gyda ni, nid yw ein crefydd yn gyfyngedig i'r Beibl; i ni, nid yw y Beibl yr unig air "a ddaw allan o enau Duw." Eto i gyd mae yn air mor fawr a gwerthfawr fel ag yr ydym yn dymuno o wir ddifrif ei gael mewn ffurf gywir. Nid oes arnom eisieu Duwinyddiaeth y ddegfed ganrif, y ddwyfed ar bymtheg, na chwaith eiddo yr ugeinfed i gael ei gwthio i'n sylw fel y darllenwn ganiadau

melus llyfr y Salmau, neu pan wrandawn ar eiriau calon-dreiddiol yr Iesu. Ein dymuniad ar hyd y blynyddoedd ydoedd fod y Beibl yn cael chwarae teg i lefaru drosto ei hun; ac felly yr ydym yn llawenychu yn neillduol fod yr oll a wnai y Beibl yn yr iaith Seisnig i lefaru gyda llais nid yr eiddo ei hun wedi ei symud i ffwrdd.

Fel engraifft, y fath anferthol niwed sydd wedi cael ei wneud gan bennau y pennodau a'r nodiadau ar ddechreu'r tudalenau yn yr Hen Gyfieithiad, y rhai a broffesant gyfleu yr ystyr. Nid yw y cyfarwyddiadau hyn, mewn gwirionedd, ond pregethau bychain iawnffyddol yn dwyn i mewn i'r Beibl drwy gyfrwysdra ryw dduwinyddiaeth neillduol. Mae Carlyle yn taflu gwawd ar y "Golygydd Deallus" a'r "Esponiwr Deallus," yr hwn sydd yn "tywyllu cynghor ag ymadroddion"; ac mae rhai ohonoch yn cofio y stori am yr hen wraig i'r hon y rhoddwyd traethodyn yn cynhwys Dammeg y Mab Afradlon gyda nodiadau eglurhaol, a'r hon pan ofynwyd ei barn arno a ddywedodd ei bod yn gallu deall y ddammeg yn dra hawdd, a'i bod yn gobeithio ryw ddydd i allu deall y nodiadau. Felly mae y Beibl yn dweyd ei stori ei hun, ac, fel rheol, yn hollol eglur; eto rhoddid mynegbyst i fyny gan gyfieithwyr y Brenhin Iago, y rhai a chwenychent iddo ddweyd eu stori hwynt. Fel engraifft, mae yr hyn a elwir Cristiolaeth yr Hen Destament, hyny yw, darganfod ynddo gyfeiriadau aneirif at y Crist sydd eto heb ei eni, i'w briodoli yn helaeth i bennau y pennodau drwy y rhai y ceisiai duwinyddion yr unfed a'r ddwyfed ganrif ar bymtheg wneud i'r Beibl attegu yr athrawiaeth o raghanfod Crist. Pe na bae pobl wedi eu dysgu fod rhyw hanes neu ddesgrifiad gan y prophwyd o Cyrus neu Hezekiah, mewn gwirionedd yn ddesgrifiad o Grist, ni feddylient byth am gymhwysiad y geiriau yn yr ystyr yna. Cyfeiria y nawfed benod o Esaiah, lle y cawn y geiriau—"Canys bachgen a aned i ni, mab a roddwyd i ni, a bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd ef; a gelwir ei enw ef Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw Cadarn, Tad Tragwyddoldeb, Tywysog Tangnefedd"—at Hezekiah. Efe, sef Hezekiah, yw y bachgen rhyfeddol, yr hwn a adfera heddwch a gogoniant i Israel, ac a lywodraetha mewn cyfiawnder. Ond dywed y cynhwysiad o flaen y bennod y cyfeiria at "frenhiniaeth a genedigaeth Crist"; ac mae y frawddeg, "Y Duw Cadarn," yr hon, yn ol Dr. Rowland Williams, a ddylai gael ei chyfieithu "Yr Arwr Cadarn," wedi cael ei dyfynu yn fynych i brofi Duwdod Crist. Os y profa Dduwdod o gwbl, profa Dduwdod Hezekiah. Mae yn gaffaeliad mawr fod pennau neu gynhwysiad y pennodau wedi eu gadael allan o'r Cyfieithiad Diwygiedig, ac y caniateir i'r Beibl yn awr lefaru drosto ei hun.

ORIG GYDA HATHREN.

Pan yn dyfod allan o'm hafoty yn mhorth y Parc ar ryw foreu mwyn ei hin, wele ddau batriarch glanwedd a phiwritanaidd eu hosgo a'u diwyg yn dyfod i'r golwg, Cerddent ochr yn ochr yn hamddenol, a'u ffyn yn hongian ar eu breichiau haswy'n segur. Yr oedd y naill yn ŵr sionc a phenwyn, a'r llall yn ŵr cydnerth a chadarn, a swn diysgog gyda'i frasgam, a'i bren almon yn drwch dan ei frythni. Ymddiddanent yn rhydd a siriol ; ac hawdd deall fod eu hymgom yn felus a chyfrin. Wel pwy ydy' y ddau foneddwr diddan acw, meddwn i, ond buan y deallais mai Athro ac Oracl yr Hen-Dy-Cwrdd ar lannau'r Cynon oedd y gwr penwyn gysgodai rhwng y prys-goed a phabell hardd a lluniaidd y boneddwr dieithr. Pan oeddwn yn ymsoni, dyfalu ac ymholi pwy allasai fod, wele'r ddau yn aros encyd oddiwrthyf, ac yn sydyn o fy mlaen, ac yn rhoi amnaid i mi ddynesu attynt ac i ymuno a'u cwmni croesawus. Yna meddai'r Athro yn symł a diddefod—"Ydy' *spector* y Parc yn 'nabod Mr. Hathren Davies?" "Nad yw" meddwn "ac ni welais ef erioed am wn i, ond clywais lawer o son am ei enw." "Wel dyma fe ynte" meddai, ac ar hynyna o gyflwyniad, wele'r gweinidog parchus a'r gwron enwog o lannau'r Taf yn estyn ei law yn addfwyn a gwylaidd. Er mai orig fer gawsom—prin haner awr—dim ond cyhyd ag y cymerodd siwrne i ni ill tri i sangu dros gylch y Parc. Ond O, fel erys argraff ymgom yr orig, a hyloted sieryd trwy gyfrwng yr unig adgof yma o'm heiddo am dano. Gymaint o adnoddau cudd dyn ddaw i'r golwg mewn ymgom. Rhan fechan o'r dyngarwr adnabyddus hwn sydd yn ei fedd. Nis gall angeu osod ei law oer ar ddim ond ar ei gist. Dileu yr argraff deimlais oddiwrth

YSGYDWAD EI LAW

nis gall ei fedd. Nid sylwedd i ymgymysgu a llwch ei briddell ydyw ei berarogl dihalog. Ni ieuodd arfaeth Ior erioed rhin a bedd, nac ychwaith ddaioni a thranc. Eill niwl y glyn fyth wywo rhosynau gras, ac fel *act* o sancteiddrwydd ei fywyd gwyn oedd ysgydwad ei law lydan, gynes yntau. Nid ei ysgwyd fel ffrewyll lip lac hyd fon y fraich nes ysigo'i chrai fel yr Hybarch Ddr. Rees, Abertawe gynt wnai Hathren, ond ei gwasgu'n raddol, yn dyner a chynes, nes ai rhin allan o'i cheudod. Gymaint ddatgudd ysgydwad llaw, ac mor ddigel ddadlena hanes, ac ebrwydded bradycha gyfrinach. Sieryd gyfrolau o ffeithiau am nodwedd y dyn a'i hysgydwo. Os defod cenedl ydyw ysgwyd llaw yn ddynol, defod sydd yn seiliedig ar adnoddau a chynyrch goreu ei meddwl a'i chalon ydyw. Pan deimlais law Hathren, prin oedd eisiau i mi ymholi am hanes diwylliad ei feddwl, a gwrtaith ei galon. Arbedodd ei law garedig, wresog i mi yr ymholiad hwnw. Rhydd llaw gwr i mi syniad am ei ddawn i lanw ei gylch. Ni chyflawna'r gwr na wyr am y gelf rasol o siglo llaw fyth orchest uchel. Nid oes gwrhydrau ar ragleni'r rhai'n. Ni chododd Duw broffwyd mawr erioed a'i law yn wyw. Pan ca ei law ergyd o'r parlys, derfydd ei hyawdledd yn ei bwlpud pryd hyny.

Diflas yw proffes o ras a chalon oer, a dwylaw rhinllyd gwrthddywediad moesol, ac anghysondeb gwrthun ydyw ; a gwyddai Hathren yn dda yn ddiau mai gwers gyntaf a symlaf y Cristion ydyw crefydda a'i law.

EI GAMRAU

yn benaf dynodd fy sylw. Mor unionsyth y safai, ac mor gyson y symudai, 'R oedd ei gam yn esbonio'i foes, a swn ei droed yn egluro'i fuchedd. Dywedwyd am arlunydd enwog unwaith fod cysgod o frychau ei

fuchedd yn weladwy ar ei ganfas, a'u bod i raddau wedi amharu ei arluniau bron i gyd. Waeth yn y byd am dalent a medr, os y galon yn ddrwg a'r fuchedd yn afiach. Onid yw pechod yn tynu ystaen ar gynyrchion athrylith, a'r drwg yn difwyno'r da a'r sanctaidd posibl yn ei fywyd. Mae llygredd wedi anurddo gogoniant llawer drama, ac wedi afradu aml ramant ddwyfol. Gwir nad yw sythedd y corff yn brawf o anghenrheidrwydd o bersonoliaeth hyfwyn, ac yn amlygiad o athrylith disglaer a chymeriad sanctaidd ; oblegyd ceir dihyryn yn fynych yn gefnsyth, ac adyn difoes a milwr llwfr yn rhagori yn aml ar gedrwydd mynydd Duw yn hynyna, ond gwel y craff nodau gwahaniaethol eu hystum a'u hosgo er hyny, a chaiff cetyn o *blisman* fel yr ysgrifenydd achos a chyfle cyfreithlon i'w didoli'n fynych, ac yn amlach na'i ddymuniad. Na, nid ffiloreg a gwegi disail ydyw fod caricror yn gweithio ei elfenau i gamrau dyn, ac yn hyrwyddo ei gerddediad. Mae gwyddor, profiad ac hanes o blaid ei ddamcaniaeth yn hyn, ac yn mhlith ei dystion cryfaf. Mor lan, hwylus, llednais a phenodol llathra'r sant y tir o'i flaen. Gellir darllen penodau o feddyleg ac adnodau lawer o foeseg trwy osgo'r corff yn unig. Mae gwydnwch yr ewyllys yn medru llunio ysgeiriau, a chadernid y cymeriad fagu gewynion, a chrefydd y galon ffurfio ermigau.

Nid o fara yn unig adeiledir y corff. Pan welais Hathren gyda'i wyneb hael a gwladol, a'i farf yn gnwd a brith o gylch ei gern, ei ên a'i fin, ac yn lledio'i wadnau yn seiliau cedyrn a diogel i ddal pwys ei babell ac i lwyddo'i gam ac i hyrwyddo'i gerddediad ; tybiais ar darawiad y foment mai un o blant Hen Ysgol prophwydi'r "Corph" ydoedd, er o'r braidd meddyliem fod ei hoender yn cyfateb i ddull afrosgo'r "Corph." Yn ddios yr oedd peth o fuandra'r Annibynwr yn nodweddu ei osgo, o leiaf hawdd darllen bannau safadwy, a chreigiau serth Ceredigion, a diysgogrwydd cred a bywyd ei enwad yn swn ei droed ac yn null ei gerddediad.

Sylwais hefyd ar

EI LAIS

nid oedd yn organaidd, nid oedd yn gyfoethog nac yn or-gwmpasog, ond yr oedd ei nodau yn fwyn a'i seiniau'n felodaidd. Er nas clywais ef yn darllen penod, gweddio, areithio, na phregethu, (llais yr ymddiddanwr yn unig glywais i ganddo) eto hawdd oedd deall wrth ei don, ei oslef, a'i acen, ei fod yn hyglyw ac hapus. Dichon y gallasai fod yn bregethwr dawnus pe wedi ei fagu mewn corlan arall. Mae'r dysgawdwr yn rhy gryf yn y pregethwr Undodaidd i fagu dawn, ac mae ei bwlpud yn rhy ddogmatic i ddiwyllio'r llais. Nid oes eisiau'r waedd i bregethu cred a dogma ; a llais i ddadrys pwnc ac nid i godi llef oedd ei eiddo ef ; ond yr oedd ansawdd ei lais nid yn peri i ni feddwl am ei ddoniau ac i ddyfalu am swyn ei bregeth, ond cyfeirid ein sylw i dynerwch ei galon ac ireidddra ei brofiad. Mor araf deg a thirion y siaradai. Mor rhwydd a naturiol draethai ymadrodd. Nid efydd yn seinio a symbal yn tincian oedd swn ei frawddegau byrion. Gellir tybio mai dryllio'r gallestr a rhwygo'r ia bydd ambell frolin wrth riadru geiriau. Mor hyglyw fydd ei lais, a chroewed fydd ei swn, a chrased fydd ei oslef, ie, a based ei synwyr, ond gymaint o feddwl a chalon, o ddeall a synwyr, o ddysg a phrofiad, o ddwysder a melusder oedd gan adsain Hathren.

EI WEN SIRIOL

Diareb wreiddiol wir hen Gymro o athronydd un tro oedd, "fod y dyn tal, main a di-wen yn un i'w ochel." Rhwng y darllenydd ag athroniaeth y ddiareb, gan nad oedd Hathren yn ei hymgnawdoli. Mawredd yw'r elfen alluoga'r gwr o nod a safle i wrando'n siriol ar storiau plant, ac er cystal dawn dweyd Hathren, gallai wrando cystal a siarad. Yr oedd ei glust mor rasol a'i dafod, a'i wen mor

hyloted a'i araeth. Seraph ydyw ambell bechadur pan ei gesyd i lefaru, ac i lefaru wrth dorf, ond syrth oddiwrth ras pan ei gesyd i wrando. Nid felly ein gwron o'r Cefn.

'Rwyn siwr mai'r *plisman* siaradodd fwyaf tra parodd yr orig ; ac nid yr Athro ac Hathren, ond sicred a hyny mai yr olaf wenodd fwyaf ac a wrandawodd oreu ; a sieryd y glust a'r wen lawer am y dyn.

EI AIR

Er mai ef oedd y gwr dieithr, a'r ddawn oedd heb ei chlywed, ni chafodd nemawr gyfle i barablu na lleoli gair, ond gymaint ag a wthiai o'i anfodd rhwng y cromfach. Y fi oedd yn siarad, ond gydag ef oedd y doethineb. Yr oedd iechyd yr Athro yn rhy fregus i afradu gair, ac yr oedd gwyleidd-dra Hathren yn rhwymo'i aelod yntau, a minnau'n ddigon ynfyd i golli fy nghyfle ac i fforffetio fy mraint o gael gwrando Tywysog yn Israel a'm cleber a'm meflau ffol ; ond yr ychydig a lithrodd dros ei wefus ef, geiriau doethineb a synwyr oeddynt, mel a gwin, goleuni a gras. Fel rheol caiff y gweinidog Undoddaidd ddigon o gredid am ei sel dros wybodaeth, ond ni chaiff fymryn braidd am ei eiddigedd dros deimlad, a'i nawdd i brofiad. Os yw hyn yn eudeb ac yn ddilys am broffwydi ei enwad, prin oedd yn wir am dano ef. Gair i brofiad, a chenadwri i galon oedd yn ei ymddiddan ef. Gwyddai yn odiaeth mai yn y Parc ydoedd ar y pryd. Gwnai sylw bron o bobpeth, a phan grwydrem ni oddiar yr hyn ddylid ymgomio yn ei gylch, tynai ef ein sylw gartref at y gwrthddrychau agos oedd o'n cwmpas—at y prysgoed (*shrubs*), y cedrwydd, y dderwen, y fedwen a'r onen, y ddraenen a'r gelynen, y llyn a'r elyrch, yr adar a'u cerddi, ac os na chawsai gyfle i siarad arnynt, estynai ei fys attynt ; siaradai ef yn ddiau am bethau'r weinidogaeth yn ei bwlpud, a'i helyntion ar ei aelwyd ac am anian dlos ar y dolydd. Yr oedd Hathren yn rhy ymarferol i anghofio ei amgylchfyd. Am wenith siaradai yn ngolwg ysgubau'r cynhauaf. Am Rhaglunïaeth meddyliai wrth donnau'r ŷd yn nghanol Awst. Am yr ysguboriau a'r ydlanau y llefarai pan ei liniau'n nghudd yn y glaswellt. Nid yn nghanol y meillion y siaradai Hathren am uwch-anianeg, ac nid wrth fugail syml a gwerinwr tlawd yr ymresymai ddyfn-ddysg.

EI FFARWEL

Pe gwyddem mai ychydig fisoedd oedd rhwng ei ymweliad a'n Parc a'r bedd, buasem wedi ymddwyn atto yn dra gwahanol. Cawsai siarad bron yr oll ei hun, gwrandawem ninnau a glywem swn murmuron, ac ymchwydd ei olaf dòn yn acenion ei brofiad. Pwy feddyliodd fod ei babell mor frau a'i iechyd mor fregus a'i fedd mor agos. Coded ei enwad ei gofgolofn, ac wyled a chaned y Taf wrth ei feddrod.

PARCWYSON.

Aberdar.

[Parheir i dderbyn llythyrau cymeradwyaeth a gwerthfawrogiad o fywyd a gwasanaeth y diweddar Barch. J. Hathren Davies. Ni wnawn yr un ymddiheurad am gyhoeddi yr un canlynol dderbyniwyd gan gyfaill oddiwrth y Parch. D. C. Jones, gweinidog yr Annibynwyr, Eglwys y Borough, Llundain, yr hwn am ddeng mlynedd fu yn weinidog Bethesda, Merthyr, ac a ddaeth i gysylltiad agos a gwrthrych y llythyr.—GOL.]

"Diolch am YR YMOFYNYDD. Cefais hyfrydwch pruddaidd i edrych ar ddarlun da fy nghyfaill ymadawedig y diweddar Barch. J. Hathren Davies, Cefncoedycymmer. Cefais

ddigrifwch hiraethus i ddarllen am dano. Dyn rhagorol ydoedd. Bum yn cydweithio ag ef am yn agos i ddeng mlynedd yn Merthyr. Cefais ef yn ffyddlon yn ei holl gylchoedd. Llanwai gydag urddas dirodres bob sefyllfa y gosodid ef ynddi. Enillai ei ledneisrwydd, ei drylwyredd, a'i gydwybodolrwydd iddo le anwyl a dwfn yn serch ei holl gydnabod gan nad beth oedd eu syniadau duwinyddol, gwleidyddol, a chymdeithasol. Pwysleisiai ef bob amser ochr ymarferol crefydd. Cyflawnodd ddiwrnod rhagorol o waith i ddynion a Duw. Cariodd belydrau gogoniant Duw yn ei garedigrwydd personol. Siriolodd dywyllwch dudew llawer calon brudd. Taenodd wawr gobaith ar ddunos erch llawer aelwyd adfydus a'i weddi afaelgar seml a'i gyngor ymarferol brawdol. O'i lygaid llwyd-ddu, dwfn, cudd, myfyrgar, pelydrai toriad dydd llon i blentyn y storm ar dywellnos. Cariai yn wastadol o'i gylch yspryd a phersawr bore a gwanwyn. Plentyn y dydd ydoedd. Meddai hyder gref mewn dynoliaeth a Duw. Canfyddai lwybr dadblygiad dyn i ddringeb delfryd Duw o tywyd crëedig. Meddai brofiad dwfn, byw o'r nerth dwyfol gynorthwya ddyn i godi i'w berffeithrwydd dynol-ddwyfol. Gwir yr esboniai rai pethau yn wahanol i mi ac eraill. Eithr yn yr esboniad yr amrywiem yn fwy nag yn y peth. Ni chadwodd gwahaniaeth barn ar rai pynciau ni rhag cydweithio yn galonog bob amser yn egniol iawn o blaid sobrwydd, addysg, gwleidiadaeth, a dyrchafiad dyn ar ddelw Duw. Cefais ef yn frawd anwyl, ffyddlon, diymhongar, galluog a theyrngar i'r blaid Ryddfrydol a dyheuadau dyn am ryddid, purdeb ac addysg. Chwith iawn genyf feddwl na chawn gwrdd eto ar y ddaear, rhaid aros i'r cyfarfod yn y nef. Ni fydd hyny yn faith. Gorwedda llu o'm hen gyfeillion yn mynwent Hen Dy Cwrdd, Cefncoed; wele un arall wedi ei roi yn eu hymyl. Gwr Duw oedd Hathren; proffwyd Jehofah ydoedd wedi ei godi ganddo i bwysleisio gwedd arbenig ar wirioned y mae perygl i gymdeithas i'w anghofio sef dwyfoldeb dyn, brawdoliaeth gymdeithasol, a chrefydd ymarferol yn mywyd cyffredin pawb. Llanwodd Hathren le mawr yn ei oes. Bu yn gyfaill i'r gwan a'r tlawd. Rhodiodd oddiamgylch gan wneuthur daioni. Ei fywyd ef ydoedd un o'r profion cryfaf tuallan i ymwybyddiaeth bersonol a gefais erioed yn dangos gwirioneddolrwydd Cristnogaeth. Cafodd llu gysgod mewn stormydd garw yn ymyl ei bersonoliaeth gref. Gwnaeth ei fywyd da ef y llwybr i ddaioni yn hawddach i eraill i'w gerdded. Dyn tebyg i bob dyn oedd Hathren, a'i fywyd yn llawn awgrymiadau am nerth Duw yn pabellu ynddo ac yn gweithio drwyddo. Buasai yn hyfrydwch pruddaidd i mi fod yn ei arwyl i dalu teyrnged o barch i goffadwriaeth gwr Duw. Ffarwel Hathren hyd y bore gwyn y cawn eto gwrdd yn nhy ein Tad. Taened engyl y Wynfa eu hedyn yn gysgod i'th weddw, a'th blant, a'th eglwys, a'th enwad yn nydd eu colled, ie, i Gymru oll. Plentyn dy genedl oeddet ti. Yn dy fedd gwyn dy fyd.

D. CHARLES JONES.

Llundain.

YR AREITHIWR.

Uwch ei bwnc ymdrechu bydd—i agor
Plygion dysg ysplenydd;
Dyna ei waith—yw dwyn dydd
I eneidiau annedwydd.—*Ioan Ddewr.*

BARDDONIAETH ISLWYN.

[PARHAD.]

Dyn tal, egwan o gorff ydoedd Islwyn, o lais peraidd, attyniadol, ond nid yn gryf na grymus. Yr oedd ei ben, meddai rhywun wrthyf, yn ormod o faint i gyfateb ei gorff—ac yr oedd ei feddwl yn rhy gryf i'w gynheddfau corfforol. Yr oedd ei bregethau bob amser yn llawn meddyliau beiddgar, ac ehediadau barddonol; ei eiriau yn gyfoethog a grymus; ond yr oedd ei lais yn rhy wan i'w traddodi fel yr haeddent. Dyn oedd Islwyn ynte, a'i enaid yn fwy na'i gorff; a thân ei athrylith yn difa ei babell gul o glai.

Ganwyd William Thomas (Islwyn) yn yr Ynysddu, Sir Fynwy, ar y 3ydd o Ebrill, yn y flwyddyn 1832. Efe oedd yr olaf o luaws o blant i'w rieni, Morgan a Mary Thomas, y rhai a symudasant i'r gymydogaeth hon o'r Goitre, gerllaw Pontypŵl rai blynyddau cyn ei eni ef. "Cafodd," yn ol tystiolaeth ei chwaer "yr addysg grefyddol oreu trwy esiampl ei rieni duwiol, a phan y daeth i oedran priodol anfonwyd ef i'r ysgolion uchaf oedd i'w cael yr adeg hono yn y siroedd hyn; a gorphenodd ei addysg yn hen Ysgol Ramadegol y Bontfaen, ac yn athrofa y diweddar Dr. Evan Davies, yn Abertawe."

Boreu oes heddychol, tawel ynte oedd eiddo William Thomas, wrth odreu Mynydd Islwyn, o dan ofal tyner rhieni duwiol; ac fel olaf-anedig y teulu efe, mewn ffordd, oedd hoff blentyn ei dad a'i fam. Gan ei fod yn eiddil o gorff a gwan ei iechyd yr oedd y gofal a gymerid ohono gan ei rieni yn eithriadol o dyner. Ar y cyntaf bwriedid ei wneud yn *Surveyor* neu *Mining Engineer* yr un fath a'i frodyr hynaf, ond yr oedd ei holl feddwl wedi ei lyncu i fyny gan lyfrau, a gwaith mawr ei fywyd—sef pregethu'r Efengyl. Gormod o gam ag ysbryd pur a dyrchafedig fel Islwyn fuasai ei gladdu mewn pwll glo; ac nid oedd ei enaid mawr ef erioed wedi cael ei fwriadu i drin y llinyn mesur.

Dywed y Parch. E. Matthews yn y Cylchgrawn am 1879, "Ni chafodd Islwyn gymhwysder at fasnach, ac nid oedd un duedd yn ei feddwl at ddim o'r fath; yr oedd ei feddwl wedi ymgymeryd at efrydiaeth, braidd er yn blentyn. Nid ydym yn meddwl y buasai yn bosibl disgyblu ei feddwl at fasnach o un natur. Yr oedd yn rhy onest i fod yn fasnachwr; ac ni ddaeth i'w feddwl erioed y buasai dyn yn arfer ei holl ddawn, ei athrylith, ei ddysg, a'i dalentau i berswadio dyn anwybodus mai yr het hon a hon oedd yr oreu yn y siop; nad oedd un gwneuthurwr yn y Deyrnas Gyfunol yn gwneuthur ei bath, ac nad oedd hwnw yn ei gwneuthur ond i gwsmeriaid neillduol; a'r un pryd yn gwybod mai y gwaethaf ydoedd yn ei feddiant, a'i fod yn ei gwerthu i'r truan yn rhy ddrud o'r haner. Er na suddodd erioed i arferion llygredig y byd hwn, yr oedd yn credu fel John Bunyan gynt, mai efe oedd y pechadur penaf."

Clywais ddarlithydd enwog yn dweyd unwaith "Fod pob un sydd yn teimlo ei hun yn myn'd yn dda, yn yn dechreu myn'd yn ddrwg, ac fod pob dyn sydd yn teimlo ei hunan yn myn'd yn fawr, yn dechreu myn'd yn fychan," ac o'r ochr arall "y funud y teimla dyn ei hun yn myn'd yn ddrwg, y mae y foment hono yn dechreu ar lwybr daioni," a dyna'r eglurhad o feddwl Islwyn a John Bunyan am ei bucheddau drygionus, fel y tybient hwy eu bod.

Er fod ar Islwyn flys pregethu, hwyrfrydig iawn fu yn dechreu traddodi o'r pwlpud. Yn wir yr oedd

wedi cyhoeddi pregeth neu ddwy cyn iddo sefyll i fyny i anerch pobl erioed. Yr oedd yn rhy wylaidd, yn rhy *shy* i wthio ei hun i'r ffrynt, ac yn ddistaw yn y *back ground* yr hoffai fod. Ond trwy berswâd ei gyfeillion dechreuodd ar ei waith, ac wedi dechreu, cymerodd ati gyda'r difrifoldeb mwyaf. Cafodd ei ordeinio yn "Sasiwn Fawr y Diwygiad" yn 1859, yn Llangeithio, lle yr oedd yspryd Daniel Rowlands, er yn ei fedd ers blynyddau, eto yn cynhyrfu'r tir.

Yn y flwyddyn 1864 priododd a Miss Martha Davies, Tredegar, yr hon a'i goroesodd am tua chwech mlynedd. Yr oedd wedi paratoi i briodi merch ieuanc o Abertawe, un mlynedd ar ddeg cyn hyny, bu farw ei ddyweddi yn lled ddisymwth er tristwch dirfawr iddo ef, tristwch a fu'n agos a'i lethu i'r bedd, ac oddiwrth effeithiau yr hwn ni allodd ymiachau cyhyd ac y bu fyw.

Er fod Islwyn mewn llawer ystyr yn fardd mwyaf Cymru yn y 19eg ganrif, ni enillodd ond pedair o gadeiriau Eisteddfodol yn ei oes. Ac nid oes un o'i gyfansoddiadau buddugol yn mysg ei bethau goreu. Gweithiodd yn galed, yn ysgrifenu a phregethu, yn rhy galed i'w gorff egwan, a bu farw wedi hir wanychu yn y flwyddyn 1878 yn 46 mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent y Babell, Mynydd Islwyn, ac ar ei fedd y mae cof-golofn hardd wedi ei gosod gan ei gyfeillion a'i edmygwyr, a *medallion portrait* o hono gan y cerflunydd Cymreig enwog Milo Griffith, yr hwn hefyd sydd yn ei fedd erbyn hyn, ac ar y maen y mae'r ysgrifen syml a ganlyn :

"ISLWYN"

Ganwyd, Ebrill 3, 1832.
Bu farw, Tachwedd 20, 1878.

O'r braidd y mae genyf amser i gyffwrdd ag Islwyn fel pregethwr ; yn ol yr hyn ag wyf wedi gael ar ddeall gan un o breswylwyr mwyaf adnabyddus y dref hon a'i hadwaenai yn dda yr oedd mor darawiadol fel pregethwr ag oedd fel bardd, ac yn ei ddydd yn llawer mwy ei ddylanwad yn ei bregethau nag yn ei farddoniaeth. Yr oedd mor wanaidd o gorff ac mor yswil o gymeriad, fel y beïd ef yn aml am ddiogi wrth bregethu. Mewn capel cymhedrol o faint, pregethai yn effeithiol iawn. Yr oedd ei lais yn bêr a threiddgar a phob amser yn hawlio gwrandawiad. Yr oedd ei wyneb gwelw, ei dalcen llawn eang, a'i lygaid gloewon treiddgar yn rhoddi golwg haner-ysprydol arno. Dechreuai yn araf a distaw heb wastraffu yr un gair, gan raddol esgyn i dôn felus ac hyawdl, ac fel yr ai yn ei flaen flachiai yma a thraw syniadau prydferth a barddonol. Yr oedd yn hynod yn ei *illustrations*, "Y mae bywyd y Cristion" meddai "fel y *weather glass* yna ; yn y byd helbulus hwn y mae yn *change*, yn *rain*, ac yn *stormy* yn barhaus ; yn ol ac ymlaen yr ä'r nodwydd yn y fuchedd hon. Nid cynt y daw diwrnod tawel teg nag y del y gwlaw yn gafodydd ddagrau ar ei ol ; ac ar ol y gwlaw y dymhestl a'r ystorm ; ond mi ddaw dydd pan na fydd na *rain* na *stormy* na *change* i'w weled yn ei hanes ; ond *set fair* tragwyddol, tywydd teg fydd hi yno, *set fair* heb gyfnewid mwy !"

Ond fel bardd y bydd Islwyn fyw tra pery'r iaith Gymraeg ; a diolch i Mr. O. M. Edwards, Rhydychen, y mae yr oll o'i farddoniaeth erbyn hyn wedi ei chyhoeddi yn gyfrol drwchus a hardd, at wasanaeth pob Cymro ddewiso ei ddarllen. Ac am ei farddoniaeth yr hoffwn ysgrifenu am ychydig yn mhellach.

Fel bardd efallai nad oes ysbryd purach erioed wedi ymddangos mewn un llenyddiaeth yn y byd nag Islwyn. Piwritan yn yr ystyr oreu yw. Y mae Islwyn yn gweled Duw drwy holl anian i gyd, a'r tònau, a'r mynyddau a'r afonig fechan, un ac oll yn llawn addoliad. Y mae ei yspryd yn llwyr dan ddylanwad proffwydi Israel : disgybl i Isaiah a Dafydd y Salmydd yw Islwyn. "Y Nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen sydd yn mynegu

gwaith Ei ddwylaw Ef" medd y Salmydd. A gwel Islwyn y nefoedd yn dangos Duw yn y nos :—

"Tyr'd nôs a'th dorf o dystion, y'm yn hoffi,
Hyawdledd dwfn y ser sydd gyda'r wawr yn tewi.
Y mae dy bur ddistawrwydd yn mynegu
Fod acw Dduw a bydoedd tecach ini.

"Tyr'd falmaidd nos, yr adeg dawel
Pan gwsg y ddiwyd olwyn ar ei hechel,
Pan nad yw twrf y byd yn daearoli'r awel."

Dywed un beirniad mai prif nodwedd pregethau a barddoniaeth Islwyn oedd prydferthwch, ac mae hyn yn wir am lawer i dudalen o'r pregethau sydd wedi eu hargraffu, ac am ei farddoniaeth hefyd. Y mae yn gadael allan ochr dywell ac hagr pob pwnc, ac yn hoffi sylwi ar yr ochr oleu a phrydferth iddo. Gwell oedd ganddo son am fywyd nac am angeu. Gwelai flodyn yn tyfu ar bob bedd. Os y nos oedd ei destyn, nid ei duwch, a'i chymylau a'i phruddder a welai—ond prydferthwch y ser afrifed :—

"Y morwr blin ar dòn aflonydd amser
A lawenha pan wela yn y pellder
Y llinell dân o ser ar lan y nefoedd
Goleudai o dragwyddol angorfaoedd."

Hoffai Islwyn son am dywydd teg gwlad tragwyddol haf, yn hytrach nag am boenau bro'r echrysdod. Ond nid prydferthwch, yn ol fy marn i yw prif nodwedd Islwyn. Y mae prydferthwch yn awgrymu symledd, tawelwch, ac hyfrydwch ; ond nid ar destynau syml, tawel, a hyfryd y canai Islwyn ; ond dyma esiamplau o'r testynau y canodd oreu arnynt :— Y nos. Y mor. Mynyddau Cymru. Y caethgludau. Yr ystorm. Y dymhestl olaf.

Clywed y mynyddau yn bloeddio canu, a choed y maes yn curo dwylaw wnai Islwyn. Gwelai'r nefoedd yn traethu gogoniant Duw ; gwelai'r ystorm drwy ganol nef, a'r bryniau ar ei braich. Desgrifia'r Croeshoeliad, nid mewn llythyrenau o waed, ond gyda llarieidd-dra arddunol—yr amser yr oedd ein gwaredwr ar y groes—pan y gostyngai "Gwaredwr nef ar fron o waed ei ben"—dyma welai Islwyn—

"Ac wylodd aml ffynon fach
Hyd ar lechweddau Canaan gu
Pan gludai'r awel leddf y llef
Mae syched, syched arnaf fi."

Na, nid prydferthwch yn unig oedd nodwedd Islwyn – ond mawredd, arddunedd, ac ysprydolrwydd—dyna ei deithi,—gadewch i mi roddi y rhai'n i chwi yn Saesneg—*grandeur*, *sublimity*, *spirituality*, ac y mae y rhai'n yn cynwys prydferthwch, a llawer mwy. Yn wir y mae genym reswm dros gredu nas gallai Islwyn ganu ar destynau hollol syml a phrydferth, heb le i roi *scope* i'w arddunedd.

Tua'r flwyddyn 1870—nid wyf yn cofio yn iawn—cynaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Aberystwyth, a chynygiwyd gwobr am benillion i'r "Fodrwy Briodasol." Yr oedd Islwyn, ac o ran hyny Ceiriog a Thelynog hefyd yn cynyg, ond cipiwyd y wobr arnynt oll gan ferch, yr hon sydd yn fyw eto ac yn dra adnabyddus yn Nghymru fel y farddones a'r efengyles Cranogwen. Nid ar destynau fel y "Fodrwy Briodasol" y carai Islwyn ganu, yr oedd y cylch bychan hwn yn rhy gul i'w awen ef allu chwareu ei hadenydd o'i fewn. Yr oedd ef yn fwy cynefin a chylchau y ser, a gwell ganddo ganu am fodrwyau Sadwrn nag am y fodrwy briodasol. Nid cylch bychan a fyn ef i'r fath angyles a barddoniaeth, ond tragwyddol heol ddilefethair.

"Barddoniaeth, O farddoniaeth pwy a roddes
I neb awdurdod ar y fath angyles
I benu dy derfynau? Ymaith reol,
Ffwrdd ddeddfau dynol
Rho'wch i hon dragwyddol heol."

Gwlad ramantus yw Bro Gwent, nid bro dawel, heddychol, brydferth. Yn Abertillery ychydig o ddyffrynoedd ffrwythlon tawel sydd onide? Na, "bryniau beilch bob llaw," ys dywed Islwyn, sydd yma; a phlentyn gwlad Gwent, plentyn Cymru, a phlenynt y diwygiad Methodistaidd yw Islwyn. Y mae ei gynefindra a'r Beibl wedi ei arwain i liwio Cymru oll a gwawr gwlad Canaan. Ac y mae rhywbeth yn debyg hefyd yn Nghymru i wlad Canaan:—

O Gymru bur! pa wlad o dan y ser
Mor enwog a thydi am weision Ner!
Cyffelyb wyt i Ganaan, Gymru dirion,
A'th fryniau y'nt i mi fel bryniau Seion.
Pan welaf hwynt o bell, tra'r haul yn machlud
Cyffelyb ynt i mi i dir y bywyd.

Pan fyddo'r haul yn machlud, os clustfeiniaf
Ar hyd dy fryniau adsain bêr a glywaf
Sef adsain anthem ein duwiolaf dadau
Pan ganent gynt yn ngwres y diwygiadau.
Fel hyn y safodd llawer bardd Hebreig
Ar fryniau Canaan, yn nefolaidd wisg
Ar ol y Pasg i wrando ar adseiniau
Per gân minteioedd Israel ar eu teithiau.

Bardd o fynyddau Cymru, yn canu ar delyn Gymreig ydyw Islwyn; y mae'r mynyddau wedi gadael argraff anileadwy ar ei ysbryd, ac y mae'r nefoedd bob amser yn llanw ei enaid,—

Nef! nef
Yw bloedd y bryniau—ail i lef
Y sant mewn hiraeth am ei dref,
I'w feddwl ef eu bannau hwy
A wasanaethant fel coffbad
Am dŷ ei dad, a gwlad ddiglwy'.

Dywed rhywun mai bai y Cymro yw efelychu gormod o genedloedd eraill, yn y dyddiau hyn myn'd yn Saeson ydym i gyd, ond flynyddau yn ol pan oedd tân y diwygiadau yn cerdded drwy'r wlad myned yn Iddewon oedd pobl, a chafodd Islwyn *narrow escape* i beidio myn'd yn Iddew i gyd. Nid oedd dim yn ei foddio yn fwy na'r nos, a'r mynydd, a'r ystorm, ac edrych ar y rheiny drwy olygon Hebreig. Dyma ddyfyniad o gân yn desgrifio Jerusalem y nos cyn y gaethglud i Babylon, y mae sobrwydd yr olygfa, ac arddunedd y desgrifiad yn anorchfygol:—

"Mae'n ganol nos! Ymguddiodd ser y nef
Oll, rhag goleuo'r distrywsy'n neshau,
Ac nid oes angel ar ganllawiau aur
Y nefoedd heno. Braidd y clywir swn
Dyferiad prudd Siloa bêr islaw
Tra'n golchi traed sancteiddiaf Seion Duw
A dagrau y dylasai Juda lom
Eu wylo oesau'nol. Mae'n ganol nos!
Ac athrist heno ydyw llais y gwynt
Fel pe yn cludo am yr olaf waith
Sain moliant ar ei haden tua'r nef."

Troer i bob man yn ei ganiadau, y mae'r un mawredd, yr un arucheledd, yr un ysprydolrwydd i'w weled. Nid yw byth yn ceisio bod yn ysgafn a digrif fel Ceiriog; nid yw byth yn athronyddu fel Hiraethog—nid yw byth yn chwareus ac ysgafn fel Talhaiarn—ond ceidw bob amser fel eryr yn entrych y ffurfafen a'r cwmwl, a'r graig, a'r mynydd, a'r môr yn gartref iddo. Ac wrth son am y môr gwrandewch ar y penill hwn:—

Ha! henffych it' y môr! y môr!
Ardderchog yw dy anthem
Pan yn molianu'th Iôr
Dy anthem yw y storom
A'r tonau hyf dy gôr.
A dull ni feddi di—
A gwae a ffrwyno'th donau
A gwae a herio'th li!
Pan chwyddo trwy yr awel
I seinio moliant draw
Lle clywo'r nef uchelaf
A'r bryniau beilch bob llaw!

Er cymaint ysprydolrwydd Islwyn, er cymaint ei hoffusder o'r Beibl a'i

farddoniaeth ddihafal, er cymaint swyn iddo ef feddai bryniau a gwastadeddau gwlad yr addewid, eto carai wlad ei dadau gyda chariad angerddol, ac y mae Mr. O. M. Edwards wedi gwneud llyfryn destlus o'i ganiadau gwladgarol o dan yr enw "Cymru Islwyn."

Carai Islwyn fryniau Cymru o'r Wyddfa i Blinlimon, a'i dyffrynoedd o Ddyffryn Clwyd i Ddyffryn Tywi. Y mae ei awen yn hoffi Bywyd y Bugail yn unigedd y mynyddau mawr; ac 'hed ei awen fel gwylan o Ynys Môn i Ynys Enlli. 'Does braidd Fynydd, nac Afon, na Dyffryn, na Sir, na Thalaeth nad yw ei awen wedi hofran yn gariadus uwch eu penau. Fe gâr Cymru a chariad angerddol—ond nid yw byth yn anghofio'r wlad sydd well—gwlad y Ganaan dragwyddol—pan yn tincio ei delyn.

"Gwlad y mynyddoedd a'i gwylltineb maith
Wrth droed ei bryniau, fel pererin, iaith
Eistedda i addoli. B'le mae'r llaw
All dynu darlun o'r mynyddau draw
A grwydrant yn y cwmwl, ac o bell
Gyfeiriant obaith tua byd sydd well."

Da fuasai genyf pe buasai amser yn caniatau i mi helaethu ar Islwyn y gwladgarwr; ond gwn eich bod wedi blino eisoes. Da fuasai genyf pe bae hyn o bapyr yn cynhyrfu rhai o'n pobl ieuainc i geisio ymgynefino ag yspryd pur fel yspryd Islwyn. Cadw cwmni da yw'r ffordd oreu i geisio byw bywyd da. Cadw cymdeithas meddyliau pur, aruchel, dyna'r ffordd i ymgyraedd at burdeb a phrydferthwch buchedd — dyna'r ffordd i gyrhaedd bywyd pur a phrydferth. Nid wyf am osod fy hun yn esiampl o'ch blaen mewn un modd ond gallaf ddweyd cymaint a hyn, y buaswn lawer gwaeth nag yr wyf onibae am y meddyliau pur y cyfarfyddaf a hwy yma a thraw—weithiai yn preswylio mewn cnawd, ac weithiau rhwng cloriau llyfr.

Gadewch i ni adael allan sothach y dydd; y *newspapers* a'r *magazines* a'r *tit-bits* yma—"Let us read something nobler, something of permanent value, something that will tend to elevate us." Peidiwn rhedeg cymaint ar ol y Saeson, a'r Ffrancod, a'r Germaniaid; byddwn ein hunain (let us be ourselves)—yn Gymry pur a chryfion heb dynu ein hetiau i neb; gweithiwn y galluoedd arbenig hyn y mae Natur wedi roi i ni fel Cymry; peidiwn gwerthu ein hunain am ddim ond *yes* a *no*; cofiwn ein gwlad ein hunain, a'n henwogion ein hunain, yn enwedig enwogion ein hardal ein hunain—ac yn mhob tref a phentref, lle y bu'r pregethwr coeth a'r bardd angylaidd yn traddodi ei neges nefol, peidiwn anghofio Islwyn!

SARNICOL.

GOGWYDDIAD YR OES TUAG AT DDIGRIFWCH.

Wrth daflu cipdrem yn ol dros hanes gwahanol genhedloedd y byd o'r amser boreuaf i lawr drwy y canoloesoedd hyd y presenol, gwelir yn amlwg i ba gyfeiriad y mae tueddiadau a gogwyddiadau y gwahanol oesau yn cyfeirio. Mae yr elfen a'r duedd at yr ysgafn a'r digrifol yn nodwedd bwysig ac arbenig yn hanes pob cenedl bron, ac er fod yna eithriadau, eto deil y gosodiad yn wir am hanes gwahanol

genhedloedd y byd,—yn y gorphenol yn ogystal a'r presenol. Y mae anian dyn, er y dechreuad, wedi ei breintio a greddfau a thueddiadau at y digrifol, ac ni ellir condemnio y dyn na'r genedl y perthyn iddi am wneud defnydd teg o'r greddfau hyn cyhyd ag y defnyddir hwy y tufewn i dir rheswm a chydwybod. Eithr, ar y llaw arall, cyfyd y perygl yn wastadol os y gollyngir i'r cyfryw dueddiadau gael eu cwrs eu hunain,—heb yr un ffrwyn ataliol iddynt, wrth roddi perffaith ryddid iddynt felly, yn sicr arweinir y dyn a'r genedl yn araf, raddol, i diriogaethau isel, llygredig, segurdod a gwag-bleser, ac o bosibl, yn y pen draw i ddistryw a cholledigaeth. Credwn na fwriadodd yr Hollalluog i ddyn dreulio amser ei fywyd yn gyfangwbl yn y cywair lleddf; y mae yn rhaid, ac yn ofynol ar bawb i gymeryd ychydig seibiant yn achlysurol i fwynhau ac i sugno cysuron i'w dedwyddoli ar hyd llwybrau eu bywyd. Ond, pa fath gysur ac hapusrwydd, erys ar y person ei hunan i fesur helaeth ei ddewis, canys i'r cyfeiriad hwn, llydan yw y ffordd, a llawer yw y rhai dramwyant drosti,—yn araf i lygredigaeth a chartrefle pechod.

Nid yn hawdd y gellir dosranu y gwahanol fathau o ddigrifwch a phleserau, at ba rai y mae yr oes bresenol yn gogwyddo. Amrywiant lawer mewn un wlad, ac nid yw yn rhyfedd felly fod dulliau pleserau y gwahanol genhedloedd yn gwahaniaethu. Eto, ar yr un pryd teimlir, os ydynt yn wahanol yn yr allanolion, fod yr un egwyddor yn rhedeg drwyddynt oll bron. Nid ydys am ymhelaethu yn ormodol ar fywyd, pleserau a gwag-fwyniant trigolion y Cyfandir a gwledydd tramor eraill, gan fod genym gyflawnder o waith i draethu rhyw gymaint ar brif dueddiadau ein cenedl fechan ni, a chanolbwyntio ein sylwadau ar Gymru, yn y testyn gorbwysig hwn. Yn ystod y ganrif hon mae y wlad yn fwy effro nag erioed i flaenfynediad. Mae addysg, celf a gwyddor wedi gwneuthur eu rhan yn ardderchog yn ystod y ganrif a aeth heibio, ac y mae y wlad mor fyw heddyw ag erioed i dderbyn ac i fabwysiadu unrhyw gynlluniau newyddion a fydd yn debygol o fod yn llesiol a bendithiol i'r werin yn gyffredinol. Y mae Cymru, hyd yn hyn, wedi dal mantais ar bron bob darganfyddiad sydd er budd i'w phobl. Aberthodd ein cyndeidiau lawer yn y gorphenol er sicrhau y breintiau rhagorol fwynheir gan y lliaws heddyw, a'r teimladau a'r meddyliau gyfyd o'n calonau yn wyneb y cyfryw ydynt,—"A ydym ni, werin Cymru heddyw yn deilwng yn mhob ystyr o'n cyndeidiau? y rhai a frwydrasant mor ddewr, ac hyd yn nod a aberthasant eu bywydau dros y breintiau enillasant yn wladol, cymdeithasol a chrefyddol. Ofnir ein bod, fel cenedl, i raddau yn syrthio yn fyr o'r delfrydau roddwyd o'n blaenau; tueddir ni i gredu ein bod yn rhy barod i ymroddi yn ormodol i ffug-bleserau a digrifwch difudd. Fel yr â yr oes yn ei blaen teimlwn fod y rhain yn cynyddu mewn deniadaeth a lluosogrwydd, fel y mawr ofnwn fod y genedl mewn perygl o herwydd lledaeniad y cyfryw. Yn awr, ceisiwn ymhelaethu ychydig ar brif dueddiadau yr oes bresenol yn Nhymru fel y canlyn.

1. DIBOBLOGIAD Y WLAD A CHYNYDD PARHAOL POBLOGAETH Y DREF. Wrth ystyried ystadegau poblogaeth y wlad mae yn resyn meddwl fod y wlad yn cael ei hamddifadu o'i phobl mor gyflym. Gwelir hyn, nid yn unig mewn rhanau o Gymru, eithr canfyddir yr un peth bron, dros yr holl wlad hon o'r gogledd i'r deheu. I gyfrif am hyn y mae llawer o achosion megis prinder gwaith celfyddydol yn y wlad, gwell cyflogau a manteision i ddwyn i fyny blant yn y dref, a cheir llawer o resymau digonol eraill i gyfiawnhau hyn. Ond eto, credwn mai un o'r attyniadau cryfaf sydd yn y dref i ieuengctyd y wlad yw y pleserau, y digrifwch a'r "*life*" berthyna i fywyd trefol. Un o nodweddion mwyaf arbenig ieuengctyd yw yr ysfa barhaus yma am nwyfiant ac ysgafnder bywyd o

gyfeddach a phleser. Mae yn ddolur calon i feddwl am lawer o langciau godwyd i fyny ar aelwydydd crefyddol, pur, yn nghanol y wlad yn ymroddi yn ormodol pan wedi gadael eu rhieni i wag-bleserau ac hudoliaeth lygredig bywyd trefol. Mae y *music halls*, y *theatres* a'r *pantomimes* israddol yma yn britho ystrydoedd ein prif drefi, ac y maent yn demtasiwn o'r mwyaf i'n hieuengctyd nwyfus, dibrofiad. Nid ar unwaith y maga dyn arferiad. Gwaith araf ydyw, ac aml, aml y dirwynir person i fewn, bron yn anymwybodol iddo ei hun i etifeddiaeth o arferion a lynant wrtho, megis y iorwg wrth y pren, holl ddyddiau ei fywyd. Gwyddom fod llawer i'w ddyweyd dros y cyrchfanau pleser a enwyd eisoes, ac nid ydym am foment am ddyweyd na ddeillia yr un budd ohonynt ond i'r gwrthwyneb yn aml. Diameu y medr llawer eu mynychu a sugno llawer o gysur a phleser adeiladol oddiwrthynt, ond i'r hogyn gwyllt, dibrofiad, credir fod mynychu y cyfryw yn aml yn sicr o droi yn flinder os nad melldith iddo. Daw yr hogyn ieuangc o'r wlad drwy hyn i gyffyrddiad ag iselion cymdeithas yn aml, ac yn raddol, raddol, drwy gymdeithasu a'r cyfryw syrth i lawr o ris i ris o lwybrau buchedd dda a rhinwedd i ystad isel bywyd llygredig iselion y dref. Nid mor aml yn awr y ceir ei bresenoldeb yn y capel ar y Sul heb son am yr oedfaon wythnosol. Iaith y dafarn a'r *theatres* ddaw dros ei wefusau, ac arwyddion bucheddau cymdeithas israddol nodwedda ei fywyd. Gwelir wrth hyn fod llawer o berygl parhaol yn deilliaw oddiwrth y gwahanol bleserau a gynygir yn feunyddiol i bobl y dref, ac ofnwn yn fawr fod yr oes yn gyflym redeg yn ormodol i fwynhau rhyw bleserau a digrifwch israddol i'r cyfeiriad yma, fel yn y diwedd y try allan yn niweidiol iawn i gynydd, llwyddiant a moesau y genedl yn gyffredinol yn y dyfodol agos.

2. Mae yr oes yn gyflym redeg, gan roddi ei bryd ar bleserau gwahanol chwareuon, gwrol-gampau, rhedegfeydd a llu eraill nad oes anghenrhaid eu henwi. Mae yn resyn meddwl fod y fath chwareuon megis y bel-droed a *cricket*, wedi cymeryd gafael mor gyflawn yn meddyliau a chalonau gwerin Cymru. Os awn i ystrydoedd pentrefi a threfi ein gwlad ambell i brydnawn Sadwrn ni chlywn bron am unpeth ond ymrysonfeydd y bel-droed a chyffelyb bethau. Gwelir yr ieuengctyd yn tyru wrth y miloedd er gweled a mwynhau y golygfeydd hyn. Wrth gwrs, ni ddywedwn na ddeillia yr un daioni o'r gwahanol chwareuon a arferir yn Nghymru heddyw, ond i'r gwrthwyneb, credwn fod ymarferiad corfforol iachus yn fendithiol iawn i lawer o'n cyd-frodyr sydd yn gorfod enill eu bywoliaeth drwy weithio y tu fewn i'r gwahanol siopau a swyddfeydd. I'r cyfryw ac i lawer yn ychwanegol y mae ymarferiad corphorol o'r fath yn fendithiol iawn. Ond y mae lle i ofni fod tueddfryd y werin yn gwyro yn ormodol ac eithafol i'r cyfeiriad hwn. Cyll rhai eu hunan-feddiant yn llwyr gan wresogrwydd a phoethder yr ymrysonfeydd crybwylledig. Aiff y bel-droed a'r nwyfus chwareuon yma a'u bryd a'u calon yn llwyr ; ni chymerant fawr o ddyddordeb yn unpeth buddiol arall, er dirfawr golled iddynt, sef y rhai a syrthiant yn ebyrth i'r teimladau dros y cyfryw chwareuon. Gwir fod llawer hyd yn oed yn mynychu y capel neu'r eglwys y Sul dilynol a'u meddyliau a'u calonau yn gyfangwbl ar feusydd yr ymdrechfeydd hyn. Gresyn fod y wlad wedi syrthio mor ddwfn i gyfeiriad chwareus gampau.

Gwelir yr un peth yn hollol mewn cysylltiad a rhedegfeydd ceffylau, *athletic sports*, *walking matches*, *shooting matches* a llu o wag bleserau eraill. Mae y cyfryw yn ffynonellau attyniad i filoedd o werin ein gwlad heddyw. Gwelir y bobloedd yn cyddyru yn finteioedd lluosog yn aml, yn enwedig ar Wyliau y Bangciau i fwynhau eu hunain ac i sugno cysur oddiwrth y fath chwareuon ac ystrangciau. Yn wir y mae lle i ofni

fod crefydd ein gwlad yn cael ei sathru dan draed y niferoedd nwyfus israddol a fynychant y fath leoedd a enwyd uchod. Drwy roddi rhyddid yn ormodol i'r tueddiadau hyn, y mae diwylliant, cynydd a sefyllfa feddyliol y wlad yn sicr o ddioddef. Gwelir hyn yn amlwg wrth daflu ein llygaid yn ol dros hanes gwahanol wledydd y byd. Cymerwn yr Ysbaen a'r Eidal er engraifft. Trwy y canrifoedd tyrai yr Ysbaenwyr yn niferoedd mawrion i fwynhau yr hyn a alwent yn bleser, sef y gwaith isel ac anheilwg o ymladd teirw. Tyfodd yr arferion hyn drwy y canrifoedd yn blanhigion cryfion yn nghymeriadau yr Ysbaenwyr ; ac er eu bod unwaith wedi enill uchel safle yn mhlith y cenhedloedd, eto drwy ddiogi, segurdod a rhedeg ar ol gau-bleserau a gwag-fwyniant, syrthiodd y genedl i lawr o ris i ris i sefyllfa isel ddarostyngedig ; ac mwyach nis perchir hi megis cynt gan y gwahanol wledydd eraill. Mae y darostyngiad hwn i fesur helaeth i'w briodoli i chwaethau llygredig a thueddiadau isel at oferedd yr Ysbaenwyr, ac ofnwn yn fawr fod y wlad hon yn dechreu gogwyddo i'r un cyfeiriad. Bydded i fechgyn a merched Cymru ddwys-fyfyrio ar bwysigrwydd y peryglon dinystriol hyn, a bydded iddynt roddi ataliad buan i'r tueddiadau fydd yn sicr o yru y wlad yn fuan i byllfa o lygredigaeth a dinystr. Mae yn anhapus meddwl fod "Hen Wlad y Menyg Gwynion" a Chymru Lan fel ei gelwir yn cael ei hanurddo mor gyflym gan y chwaethau nwydwyllt a difaol yma. Mae un genedl yn barod iawn yn wastadol i efelychu cenedl arall ; ac y mae yn chwithig meddwl fod cymaint o'r chwareuon a'r pleserau damniol yma wedi eu hatgludo o dyllau llygredig iselion cymdeithas yn Lloegr a'r Cyfandir.

Mawr obeithiwn a gweddiwn na cha crefydd yr hen Walia Wen ei diorseddu gan y cyfryw, ac i'r wlad drwy y fath drychineb syrthio yn aberth i alluoedd cyfrwys y diafol.

Mydroilyn. D. J.

(*Pw barhau*).

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Cynhaliwyd cyfarfodydd chwarterol y gymdeithas uchod yn eglwys wledig Rhydygwin, dydd Mercher a dydd Iau, Mawrth 30ain a'r 31ain, ac er fod yr hin yn hyfryd a'r amaethwyr o gwmpas yn brysur yn hau eu cnydiau, yr oedd cynulliadau rhagorol yn yr holl oedfaon, yn enwedig brydnawn a hwyr yn yr ail ddydd pan oedd y capel yn llawn o wrandawyr astud. Fel y gŵyr y rhan fwyaf o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD saif y capel mewn man tlws yn ei gladdfa brydferth ar dueddau Dyffryn hardd Aeron, lle, yn ol traddodiad, y mae Undodiaeth wedi dal ei thir yn rhyw ffurf neu gilydd oddiar amser Pelagius, a elwid Morgan yn Gymraeg, yn y bumed ganrif. Pan aeth allan brydles yr addoldy cyntaf, sef hen addoldy Ystrad, yn 1848, amddifadwyd y gynulleidfa o'i chartref ysprydol, ac am dymor ymddangosai fel pe na wnai yr un tirfeddianwr yn y gymydogaeth roddi lle i adeiladu capel newydd. O'r diwedd adeiladwyd y capel presenol yn agos i ddwy filltir o'r hen addoldy ar dir perthynol i Iarll Carrington yr amser hwnw, yr hwn oedd ben-

defig o dueddiadau Rhyddfrydig. Yr oedd symud y capel i'r fath bellder yu anghyfleusdra mawr i lawer o'r addolwyr, ond er gwaethaf yr oll, mae yr achos wedi llwyddo, ac mewn rhifedi ac, feallai hefyd mewn dylanwad y mae mor gayf ac erioed. Yn ddiweddar adeiladwyd ysgoldy a chyfleusderau eraill gan y gynulleidfa ar draul nid bychan, ac mae y ddyled oedd yn aros ar yr adeiladau newyddion wedi ei dalu drwy garedigrwydd Mr. Davies, un o feibion selog Gwrthwyntisaf, yn awr o Lerpwl, yr hwn hefyd a roddodd y gwobrau yn yr eisteddfod a gynhaliwyd yn y capel ar ddydd Gwener y Groglith.

Yr oedd y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn wythnos y Pasc yn wir foddion adfywiad ysprydol i'r rhai oeddynt yn bresenol. Nos Fercher dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. David Evans, a da oedd gan bawb ei weled mewn gwell iechyd. Traddodwyd y bregeth gyntaf o'r gyfres gan y Parch. Melchisedec Evans ar y testyn gogoneddus ac amserol: "Bywyd anfarwol yr enaid yn Nuw." Dilynwyd ef gan y Parch. John Davies, yr hwn a roddodd bregeth darawiadol ar "Ddioddefiadau Crist a'u Hystyr a'u Gwerth i ni." Y boreu canlynol ymgyfarfyddodd y Pwyllgor am naw o'r gloch, a chymerwyd y gadair gan y Parch. Lewis Williams, Llywydd y Gymdeithas. Yn mhlith materion ereill penderfynwyd anfon llythyr o gydymdeimlad i Mrs. Hathren Davies a'i theulu yn eu galar, ac hefyd i gyhoeddi Cyfieithad Cymraeg o lyfr y Parch. Joseph Wood ar y Beibl drwy gynorthwy y British and Foreign Unitarian Association. Gan fod y cyfieithydd apwyntiedig, y Parch. J. Hathren Davies wedi ei alw oddi wrth ei waith at ei wobrwy ymddiriedwyd y gorchwyl o orphen y cyfieithad i'r Parch. E. Ceredig Jones, M.A. Dechreuwyd gwasanaeth boreu dydd Iau gan y Parch. R. C. Jones, M.A. a thraddodwyd pregethau gan y Parchn. Mr. Morgan a T. Arthur Thomas. Rhoddodd Mr. Morgan, yr hwn sydd wedi ymuno a'n rhengoedd gweinidogaethol yn ddiweddar, bregeth alluog ar "Cymhwysiad yr Ysbryd Cristionogol at ein Bywyd beunyddiol cyffredin," a phwysleisiai y syniad mai y ffordd i gadw ein hunain "yn ddifrycheulyd oddi wrth y byd" yw gwasanaethu y byd fel ag y gwnaeth yr Iesu. Sylfaenodd Mr. Thomas ei bregeth ar Daniel vi. 10, a siaradodd yn effeithiol a defnyddiol iawn ar y "Y Ddyledswydd o gadw ffenestri yr Enaid yn agored i'r dylanwadau goreu." Yn y prydnawn dechreuwyd yr addoliad gan y Parch. John Davies, a'r pregethwyr oeddynt y Parchn. E. O. Jenkins a D. G. Rees. Pwysleisiai y cyntaf "Yr angen am hunan-wybyddiaeth fel cymhelliad i Hunan-sylweddoliad" a dilynid ei anogaethau gyda dyddordeb amlwg gan y dyrfa. Pregethodd Mr. Rees "bregeth y Gymdeithas" oddiar 1 Ioan i. 7—"Gwaed Iesu Grist ei fab ef sydd yn ein glanhau oddiwrth bob pechod," ac olrheiniodd yr egwyddor o aberth yr hon sydd wrth wraidd yr oll sydd oreu yn y bywyd dynol. Teimlai y rhai oedd yn bresenol fod y pregethwr wedi trin pwnc tra dadleugar mewn ysbryd ymarferol ac anadleugar, ac wedi ei wneud yn fuddiol i'r Undodwr a'r Trindodwr fel eu gilydd. Aeth y Parch. B. Carolan Davies, gweinidog parchus yr Annibynwyr yn Ty'nygwndwn drwy y rhan ddefosiynol o'r gwasanaeth hwyrol yn felus ac adeiladol iawn. Pregethodd y Parch. D. G. Rees oddiar Heb. ii. 3—"Pa fodd y diangwn ni os esgeuluswn iachawdwriaeth gymaint?" a rhoddodd i ni bregeth rymus ar "Ddeddf Dadblygiad a Dirywiad mewn Bywyd." Dywedai nad yw mwyach yn gwestiwn o Undodiaeth a Thrindodiaeth yn gymaint ag yw yn fater o grefydd ac anghrefydd. Difaterwch tuagat angenion uchaf yr enaid ydyw un o beryglon mwyaf cyffredin yr oes. Gyda phregeth yn orlawn o ysprydoliaeth a phob gair o honi wedi ei drwytho yn mhrofiad dyfnaf yr enaid; ar "Rodio yn yr ysbryd, neu gymundeb gyda Duw" dygodd y Parch. M. Evans i derfyn gyfres o gyfarfodydd

a gofir yn hir gan y rhai a gawsant y fraint o fod yn bresenol. Cyn ymadael diolchwyd yn gynhes i gynulleidfa Rhydygwin am y lletygarwch caredig oeddynt wedi ddarparu ar gyfer pawb. Yr oedd y miwsig, yr hwn a deimlid yn wir ddyrchafol, o dan arweiniad Mr. David Hughes, yr arweinydd canu lleol, a chwareuwyd yn fedrus gan Miss Evans, Nantygelli, a Miss Jones, Aldergate. Yr oedd gofal nid bychan wedi ei gymeryd yn netholiad yr emynau a'r tônau fel ag y gallai pawb uno yn y gân.

PRIODASAU.

Yn nghapel Hebron, Clydach-ar-dawe, dydd Mercher, Chwef. 23, o flaen yr Is-Gofrestrydd, Mr. David Davies, Pontar-ar-dawe, a gweinidog y lle, y Parch. D. Eiddig Jones, A.T.S., unwyd mewn glân briodas, Mr. Evan Jones, Ynysmudw, a Miss Mary Mary Morgan, o'r un lle.

Yn naws gwir gynes gariad— Evan f'o
A'i fwyn Fair yn wastad ;
Byw mewn hedd, a phob mwynhad,
Hyd farw fo'u cydfwriad.

IOAN MEUDWY.

Yn Swyddfa y Cofrestrydd, Pontardawe, dydd Sadwrn, Mawrth 12, unwyd mewn hardd briodas, Mr. Ioan Davies, Trebanos, a Miss Elizabeth Wood, Craigcefnparc.

Cariadau cywir ydynt,—deuawdau
Hudol wedi'r helynt ;
I'w henwi ar eu hoew hynt,
Haul heddwch ddelo iddynt.

BANOS.

Dydd Mercher, Ebrill 13eg, yn nghapel y Graig, Trebanos, o flaen y Cofrestrydd a'r Parchn. Simon Jones, B.A., Abertawe, a Gower Richards, Gosen, Trebanos, unwyd mewn glân briodas Mr. Emlyn Thomas a Miss Mary Bowen, y ddau o Drebanos. Dymuna llu mawr o gyfeillion bob rhwyddineb a llwyddiant i'r pâr ieuanc yn eu byd newydd.

MARWGOFION.

CHWEFROR 13, yn 86 oed, William Evans, Newbury, Llundain. Cyrhaeddodd ef oedran addfed iawn. Cafodd iechyd anarferol o dda drwy ei oes. Cododd deulu lluosog a pharchus. Ychydig flwyddi yn ol symudodd ef o Bontardawe i Newbury, Llundain, at ei ferch, ac yno yr anadlodd ei olaf. Dychwelwyd ei babell o glai i Bontardawe y dydd Iau canlynol, hebryngwyd ef i dŷ ei hir gartref, wrth Gellionen. Ymhyfryded y plant a'r holl berthynasau yn y cysur a'r dyddanwch a gant yn nghysgod aden Crist y bywyd bob dydd. Gweinyddodd y Parch. W. Alfa Richards yn dyner a thoddedig ; a bydded i'r gwersi hyn aros yn nerth ac yn gryfder i holl blant dynion.

MAWRTH 26, yn 38 mlwydd oed, Miss Hannah Thomas, unig ferch Mr. Edward Thomas, Blaenmene, ger Pantdefaid. Bu'r ymadawedig yn gwaelu'n raddol er ys blynyddau, ac amlwg oedd er ys tro nad oedd adferiad i fod yn ei hanes. Dynes

dawel, ddistaw ydoedd, a llanwodd yn ei chartref le ei mam yr hon gollodd pan yn ieuanc. Gadawodd dad a brawd, nai a nith mewn galar o'i cholli. Claddwyd ei rhan farwol yn Mhantdefaid y dydd Mercher dilynol i'w marwolaeth. Gwasanaethwyd yn y tŷ a phregethwyd yn y capel gan y Parch. Arthur Thomas, a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins.

MAWRTH 27, yn 60 oed, John Bowen, Trebanos. Cyrhaeddodd y newydd blin am farwolaeth ein cyfaill glustiau yr ardalwyr mor sydyn, nes y tarawyd pawb a thymor o fudanrwydd. Tra yr oedd ef yn dod allan o ystafell ei glwb nos Sadwrn, Mawrth 26ain, bernir iddo golli ei droed wrth ddisgyn y grisiau, a syrthiodd, gan anafu ei ben i'r fath raddau, fel y methwyd ei adfer i'w ymwybodolrwydd. Cafodd angladd parchus y dydd Iau canlynol. Daearwyd ei deml o bridd yn nghladdfa Gellionen. Pregethwyd gan y Parch. R. Rees, Alltwen, a chafwyd araeth a gweddi ar lan y bedd gan y Parch. Gower Richards, Trebanos. Bydded i'r weddw unig, a'r plant lluosog, a'r perthynasau oll, i sugno eu cysuron o ffynonell y bywyd glân a dwyfol.

MAWRTH 27, yn 72 mlwydd oed, bu farw John Davies, Croesffordd, Llanfihangel-ar-arth wedi byr gystudd. Ni fu erioed yn gryf o ran iechyd. Dioddefai bron drwy gydol ei oes oddiwrth Asthma. O ran crefft gwehydd ydoedd. Yr oedd yn unig iawn er ys blynyddoedd—y plant i gyd wedi tyfu i fyny a'u adael. Yr oedd ei briod wedi ei ragflaenu rai blynyddoedd. Hanai o deulu parchus a thalentog. Yr oedd yn nai fab brawd i'r bardd a'r doniol Thomas Humphreys, Penlon, ac yn ŵyr o ochr ei fam i John Thomas, Pontsian, bardd enwog arall—awdwr y gân anfarwol, "Cwyn y Cristion." Priododd John Davies yn foreu Margaret Morgans, wyres Dr. Morgans, Blaencamel, Cilcenin, a chawsant amryw o blant. Buont yn byw am dymor ger Cribyn. Pan yn trigianu yn y lle hwn bu John Davies yn llafurus a defnyddiol gyda'r achos Undodaidd yn y lle, yn neillduol felly gyda'r canu. Yr oedd yn feddianol ar lais *bass* o radd uchel. Cafodd yr ymadawedig angladd lluosog iawn y dydd Mercher dilynol i'w farwolaeth. Gweinyddwyd ar yr achlysur yn tŷ gan Ficer y plwyf, Curad Pencader, a'r Parch. Arthur Thomas, Llandyssul. Cafwyd pregeth alluog a phwrpasol gan Mr. Thomas ger y drws yn yr awyr agored. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Llanfihangel-ar-arth, a gweinyddwyd yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan y Ficer, y Parch. J. T. Hughes. Prif nodweddion da bywyd yr ymadawedig oeddynt *geirwiredd*, *gonestrwydd* ac *unplygrwydd*. Gadawodd ar ol ddau frawd a llu o berthynasau, amryw blant, wyrion a rhai gorwyrion. Nerth gaffont oll i'w efelychu yn y pethau goreu yn ei gymeriad.—*Evan Evans.*

MAWRTH 29, David Evans, Pantcoch cottage, Talgareg, yn 83 oed. Adnabyddid ef yn gyffredin fel Deio'r Waun a Deio'r Graig. Eithriad fyddai cyfarfod a dyn mor ddiberthynas a'r hen gymeriad hwn—mor bell ag oedd perthynasau yn myn'd yr oedd bron yn unig, ac eto nid oedd heb gyfeillion i deimlo'n flin yn herwydd ei golli. Yr oedd yn un o hen gymeriadau yr ardal ac yn un a berchid ar gyfrif ei ddidwylledd a'i ddiniweidrwydd ; ar gyfrif ei ymlyniad diysgog a didderbyn-wyneb wrth yr hyn a ystyriai ef oedd yn iawn ac angenrheidiol. Yr oedd yn un o hen ffyddloniaid Capelyfadfa ac eithriad fawr fyddai i'w sedd fod yn wag ar y Sul. Pan yr oedd yn ieuangach yr oedd yn ffyddlon iawn yn yr Ysgol Sul a bu yn athraw ymroddgar am flynyddoedd. Mae'r gynulleidfa heddyw yn gweled ei eisiau ac yn teimlo fod ei le yn wag. Claddwyd y Gwener canlynol yn Capelyfadfa a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

MAWRTH 31, Thomas Jones, Henbant, Talgareg, yn 83 oed, gan adael plant, ŵyrion, a llu mawr o gyfeillion a pherthynasau i golli deigryn ar ei

ol. Claddwyd y Mawrth canlynol yn Capelyfadfa. Gwasanaethwyd yn y ty gan James Davies (myfyriwr); pregethwyd yn y capel gan E. O. Jenkins; a gweddiwyd ar lan y bedd gan Edwin Jones, Pisgah. Awgrymai un o aelodau Capelyfadfa wrthyf y dylasai symudiad a hanes Thomas Jones gael lle amlycach yn yr YMOFYNYDD na marwgof gyffredin. Yn ddiameu teilyngai hyny. Byddai yn werth i aelodau ein heglwysi a phlant ein Hysgolion Sul gael gweled darlun a darllen hanes gweddol lawn o'r hen gymeriad hwn—un a fu yn nodedig o ffyddlon yn Capelyfadfa gyda'r gwasanaeth crefyddol, yr ysgol gân, a'r Ysgol Sul am flynyddoedd meithion. Un ffyddlon oedd ef—ffyddlon yn y gauaf fel yn yr haf, ar dywydd garw megys ar dywydd teg—ffyddlon hyd eithaf ei allu heb byth dynu'n groes. Un o'i ragoriaethau fel aelod crefyddol oedd nad oedd byth yn cymeryd ei siomi; nid oedd methu enill ei bwynt yn peri iddo gadw draw ac yn ei atal i weithio. Heb rwgnach ac heb ŵg gwnai ei ran yn ffyddlon, ac nid oedd dim yn nes at ei galon na'r achos yn Capelyfadfa. Yn hwyrddydd ei fywyd, pan nad oedd ei feddwl mor gyflym a'i sylw mor graffus a chynt, nid oedd dim a barai iddo anghofio ei henaint a'i wendid fel son am yr achos yn y Bwlch, gyda'r Ysgol Sul a'r ysgol gân, a son am ffyddloniaid y cofiai ef am danynt. Gweithiwr caled a darbodus oedd yn ei gartref. Fel Abraham, planai goed, ac mae cloddiau a pherthi ei hen gartref i aros am genedlaethau i ddweyd am ei lafur a'i ofal. Yn ei amser goreu yr oedd yn weddiwr cyhoeddus dwys a thaer, yn ganwr hwylus, yn aelod ymroddgar a diddig. Gobeithio y bydd i'w symudiad ef o'n plith fod yn symbyliad i bobl ieuainc y gynulleidfa i'w efelychu. "Da was, da a ffyddlawn."

EBRILL 2, William Jones, Gelliaur. Llandyssul, yn 70 oed. Claddwyd y Mercher canlynol yn Pantdefaid pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a T. A. Thomas. Nid oedd cystudd yr ymadawedig ond byr a chredai pawb fod gwella iddo; credai ei ferched, y rhai fuont yn gweini arno yn dyner a ffyddlon, fod gwella iddo, ond y borau uchod gwaethygodd ac yn mhen ychydig oriau ffarweliodd. Yr oedd Mr. Jones yn adnabyddus i gylch eang iawn ac yr oedd iddo lu mawr o gyfeillion. Enillodd gyfeillion lawer wrth ddilyn ei alwedigaeth fel ffactriwr. Yr oedd yn adnabyddus i lawer yn Aberdar, Pontardawe, Ystalyfera a llu o fanau eraill ag y bu ei alwedigaeth yn ei arwain iddynt. Yr oedd ymweled a chymydogaeth newydd yn golygu gwneud cyfeillion newyddion yn ei hanes ef. Yr oedd yn ffyddlon iawn—braidd nas gellir dweyd ei fod yn feiddgar o ffyddlon i'w argyhoeddiadau gwleidyddol a duwinyddol. Cymerai ddyddordeb mawr yn mhynciau y dydd ac nid oedd heb reswm dros yr hyn a gredai. Yr oedd yn Undodwr selog ac yn un o aelodau hynaf eglwys Pantdefaid. Tra yn ei gartref yr oedd yn weithiwr caled ac yn dad a gerid yn fawr gan ei blant. Gadawodd gylch helaeth iawn o berthynasau i alaru ar ei ol ac yn ei plith blant, wyrion, brawd (yr unig un sydd yn ol o ddeuddeg o blant) tra mae y gymydogaeth yn teimlo yn chwithig ar ol colli un arall o'r hen golofnau.

Er colli ein cyfeillion hoff
Yn yr Iorddonen gref
Mae'n felus meddwl eto'n nghyd
Cawn gwrddyd yn y nef.

EBRILL 5ed a'r 10fed, Mary Ellen Jenkins a William Walter Jenkins, efeilliaid i William a Mary Anna Jenkins, Clynmeherin. Claddwyd yn mynwent Capelygroes.

EBRILL 9, yn 66 mlwydd oed. Mary Thomas, Blodfa, Llandyssul, Yr oedd yr ymadawedig yn chwaer i Mr. John Thomas, Dentist, lle y cartrefai, a brawd arall ydyw Mr. D. Thomas, Cloth Hall, Pantdefaid. Er ys peth amser yn ol cyfarfyddodd yr ymadawedig a damwain, a thorodd ei chlun, ac ni lwyr wellhaodd oddi wrth effeithiau y digwyddiad hwnw.

Cafodd gystudd hir a phoenus a dioddefodd yr oll yn dawel. Heblaw yr uchod gadawodd ddau fab a chwaer mewn galar ar ei hol. Y dydd Mercher dilynol claddwyd yn Mhantdefaid pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. Arthur Thomas yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Gwilym S. Rees, B.A., Llandyssul.

MANION AC HANESION.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Nos Sadwrn, Chwefror 19eg, yn Ysgoldy Newydd y Graig, dan arweiniad y Parch. W. Alfa Richards, cafwyd cyfarfod adloniadol campus, daeth torf ddymunol yn nghyd i fwynhau o'r danteithion melusion lu oeddent ar y byrddau. Am ddweud brawddeg Gymraeg afrwydd enillwyd y wobr gan Mr. Willie Williams—Nos Sadwrn, Mawrth 5ed, yn y Graig, traddododd y Parch. T. E. Nicholas, Glais, ei ddarlith nerthol ar y testyn, "Cerddi Gwerinol Cymru," a gallwn yn ddibetrus ddweud mai darlith ardderchog ydoedd hi, darlith yn cynwys gwirioneddau pwysig. Yr oedd y darlithydd hefyd yn gwerthu ei lyfr newydd, "Salmau'r Werin," a phwy bynag a garai gael gwledd i'w enaid, gyred at yr awdwr am y llyfr, pris swllt. Cadeiriwyd gan y Parch. W. Alfa Richards—Nos Sadwrn, Mawrth 12, yn Ysgoldy newydd y Graig, Mr. J. J. Williams yn llywyddu, cafwyd cwrdd adloniadol arall. Enillwyd gwobr gan Mr. Marles Williams am sillebu, hefyd enillodd Mr. Willie Williams y wobr am enwi y mwyaf o leoedd Cymreig yn dechreu gyda'r lythyren T. Pawb wedi mwynhau eu hunain.

CAPELYGROES—Ar yr 22ain o Fawrth cynhaliwyd y Te Parti blynyddol yn y lle uchod. Rhoddwyd y te eleni gan Mr. a Mrs. Evans, Frwdywhiad Arms, i'r rhai y mae diolch gwresog yn ddyledus am eu caredigrwydd. Yn nghwrs y prydnawn daeth nifer anarferol o liosog yn nghyd i gyfranogi o'r danteithion. Yn yr hwyr cynhaliwyd y cyfarfod llenyddol arferol, a throdd allan yn llwyddianus iawn. Adroddodd a chanodd y plant nifer fawr o ddarnau addysgiadol a chwaethus. Un noddwedd newydd o'r cyfarfod hwn oedd drama gan nifer o fobl ieuainc y gynulleidfa. Aeth pob un trwy ei ran yn effeithiol iawn. Cyfeiliwyd trwy y cyfarfod gan Miss Grace Jenkins, Blaenwaun-ganol; a llywyddwyd gan yr Henadur Evans, Ffynonfair.—Ar yr 16eg o Ebrill (prydnawn yr arholiad) rhoddodd Mrs. Morgan, Moelfre, wledd o de i'r plant, fel y mae wedi arfer gwneud bellach er's blynyddau. Haeddr ddiolchgarwch y gynulleldfa am yr anogaeth a rydd i'r plant.

CRIBYN—Prydnawn yr Arholiad cafodd plant y Dosbarth Beiblaidd yn y capel uchod wledd o de. Yn yr hwyr cynhaliwyd cyfarfod llenyddol y plant yr hwn a drodd allan yn llwyddianus iawn. Llywyddwyd gan y Parch. 'L. Williams, Rhydygwin.

ABERDAR—Dygwyd cyfarfodydd Cymdeithas Ymdrechol yr Hen Dy Cwrdd i derfyn am y tymhor gyda *Social Tea.* Cafwyd cyfarfodydd llwyddianus ar y cyfan drwy'r gauaf, a theimlir yn ddiolchgar am help brodyr y tu allan i ddwyn hyny o amgylch—i'r Parchn. J. Morgan Jones, M.A., am Hanes a Thraddodiadau Israel; Alfa Richards, Mynydd Duw; D. G. Rees, Francis o Assissi; J. Park Davies, B.A., B.D. Hen Arferion Crefyddol; J. R. Dennis, Brwdfrydedd; a Mr. Tom Williams (Parcwyson), Rhamant Ymneillduaeth. Darllenwyd papyrau hefyd gan rai o'r aelodau, sef R.J.J., J. J. Lewis, David Jones, J. E. Davies, John Davies, D. W. Davies, J. S. Evans, J. Ivor Davies, Richard Davies, W. Henry Davies, Myfanwy Lewis, T. G. Morgan, W. P. Davies a Taliesin Griffiths. Y swyddogion

am eleni oedd Mr. John Thomas, Llywydd ; Taliesin Griffiths, Islywydd ; Ebenezer Davies, Trysorydd ; W. Henry Davies, Ysgrifenydd.

CAPEL-Y-BRYN.—Dydd Gwener, Ebrill 15, cynhaliodd Ysgol Sul Capel-y-Bryn ei gwledd flynyddol. Daeth nifer luosog iawn o gyfeillion ynghyd yn y prydnawn i fwynhau y wledd ardderchog o de a bara brith, arlwywyd i ni eleni drwy haelioni y Meistri Evan Jenkins, Y Gwernfryn, a John Jenkins, Tancoed. Dyma'r tro cyntaf i'r wledd i gael ei chynal yn yr ysgol-dy wedi iddo gael ei adnewyddu, a dyma'r waith gyntaf y defnyddiwyd y llestri gyflwynwyd yn ddiweddar at wasanaeth yr eglwys gan y foneddiges garedig, Mrs. Jones, Alexandria House. Yn yr hwyr cynhaliwyd cyfarfod adloniadol o dan lywyddiaeth y Parch. J. Davies, yr hwn a gyflwynodd (ar ran y rhoddwr, y Dr. D. J. Davies, Ph.D., Glasgow,) ryw ddeg-ar-hugain o lyfrau Cymreig gwerthfawr yn wobrwyon i gynifer o fynychwyr mwyaf cyson yr Ysgol Sul.

CYMANFA YSGOLION RHANBARTH LLANDYSSUL.—Cyfarfu pwyllgor y Gymanfa uchod yn ysgoldy Pantdefaid Sul, Ebrill 3edd, o dan lywyddiaeth Mr. J. R. Thomas. Ail etholwyd yr hen swyddogion. Cynhelir y Gymanfa nesaf, Sul Mai 22ain yn Bwlchyfadfa, y cyfarfodydd i ddechreu am 1.30 a 5.30. Yn yr hwyr pregethir gan y Parch. T. A. Thomas, ar "Ein dyledswydd tuag at y gwasanaeth crefyddol cyhoeddus." Arweinwyr y gan ydynt, Mr. David Davies, Pantdefaid, a Mr. J. Penry Lewis, Llandyssul, (y Plant.) Cyfeilyddes, Miss Ellen Thomas, Bwlchyfadfa. Dewiswyd y tonau canlynol erbyn y prydnawn ; Southport, Tongwynlais, Abertawe, Lingham I'r plant ; Clychau'n Canu a Canlynaf Iesu. Erbyn yr hwyr ; Clorach, Majesty, Glanrhondda, Rhydygroes. Cenir yr anthem, 'Yr Ysgol Sabbothol' yn y ddau gwrdd.

RHYDYGWIN.—Ar ddydd Gwener y Groglith cynhaliwyd yr wyl dê flynyddol mewn cysylltiad a chynulleidfa ac Ysgol Sul Rhydygwin, ac fel arferol yr oedd y cynulliad yn lluosog iawn. Yr oedd holl blant yr ardal, gan nad i bwy enwad y perthynent yn cael derbyniad croesawus. Mae yn perthyn i Rhydygwin ar yr adeg bresenol fyddin ardderchog o blant, ac oherwydd hyny mae yr achos yn y lle yn obeithiol iawn. Yr oedd y trefniadau ar gyfer y te yn nwylaw pedair boneddiges yn perthyn i'r gynulleidfa, ac aethaut drwy eu gwaith yn rhagorol. Ar ol te cynhaliwyd Eisteddfod yn y Capel, a chyfrifid fod yn agos i bum cant o bobl ar un adeg o fewn i'r adeilad. Cadeiriwyd gan y Parch. E. Ceredig Jones, arweiniwyd gan Parch. Lewis Williams, a gwnaeth Mr. Davies, Gwarllwynisaf, ei waith yn fedrus fel ysgrifenydd. Y beirniaid oeddynt y Parch. B. C. Davies, (Amrywiaeth), Sarnicol, (Prydyddiaith), a Mr. Hefin Williams, (Cerddoriaeth). Yn y brif gystadleuaeth gorawl enillwyd y wobr gan gor Cilie Aeron, o dan arweiniad Mr. Evan Evans, yr hwn sydd wedi bod yn ffyddlon iawn fel arweinydd y canu yn y Capel yno am flynyddau lawer. Y dernyn ydoedd "O Gymru anwylaf!" (John Thomas), yn nadganiad yr hwn nid yw Mr. Evans a'i gor eto wedi cael eu gorchfygu. Aeth y wobr am lythyr desgrifiadol o'r cyfnewidiadau a effeithid gan reilffordd newydd Dyffryn Aeron i Miss Lloyd, Penbrynmawr, un o ffyddloniaid Rhydygwin. Yr oedd y rhaglen yn un faith, a chan fod safon uchel wedi ei chyraedd yn mhob adran, nid gwaith hawdd oedd gan y beirniad i benderfynu pwy oedd oreu, yn enwedig yn mhlith yr ymgeiswyr ieuanc, y rhai oeddynt yn anarferol luosog. Cyfeiliwyd ar yr American Organ gan Mrs. Thomas, Ystrad, a mawr werthfawrogid ei gwasanaeth. Penderfynir cynal yr Eisteddfod yn flynyddol mewn cysylltiad â'r wyl dê.

[MARWGOFION, &c.—O ddiffyg gofod gorfuwyd gadael allan amryw Hanesion, ac hefyd Farwgofion Mrs. Jones, Clifton Hill, Pontshan ; Mrs. Jacob, Cwmmacwy ; Mrs. Davies, Lleinau Cottage, Pencarreg ; a Mr. John Herbert, Llanbedr. Cant ymddangos yn ein nesaf.—GOL.]

ORIEL COLEG CAERFYRDDIN.

O DAN OLYGIAETH

DR. E. PAN JONES, M.A.,

YN CAEL EI GYNORTHWYO GAN Y

Prifathraw W. J. EVANS, M.A., ac ereill.

Cynwysa hanes yr holl Fyfyrwyr, o bob Enwad, fu yn y Coleg o 1792 hyd 1899, gyda 271 o Ddarluniau Athrawon a Myfyrwyr.

Mae Byr-Gofiantau i'r oll o'r Myfyrwyr Undodaidd wedi eu hysgrifenu yn Saesoneg gan y Prifathraw Evans. . .

284 o DUDALENAU CROWN QUARTO, WEDI EI RWYMO MEWN LLIAN HARDD } **Pris, 7s. 6c.; cludiad yn rhad, 7s. 11c.**

Gyrer yr Archebion i'r Cyhoeddwyr—

Joseph Williams & Sons, Swyddfa'r 'Tyst', Merthyr.

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Llywydd.....Y Parch. LEWIS WILLIAMS, Rhydygwin.
Is-Lywydd.....Y Parch. D. G. REES, Penybont.

..... CYNHELIR .....

CYFARFODYDD BLYNYDDOL

Yr uchod eleni yn MRONDEIFI, LLANBEDR, ar ddyddiau MAWRTH a MERCHER, MEHEFIN 21 a 22. . .

Estynir y croesaw gwresocaf gan weinidog ac eglwys Brondeifi i weinidogion a chynrychiolwyr eglwysi ac eraill i'r cyfarfodydd hyn.

Bydd trefniadau y cyfarfodydd fel y canlyn :—

DYDD MAWRTH, am 5 o'r gloch.....Y Pwyllgor Arianol.
" " 6 " .....Gwasanaeth a Dwy Bregeth.
DYDD MERCHER, am 9 o'r gloch.....Pwyllgor y Gymdeithas.
" " 10.30 " .....Anerchiad y Llywydd.
" " 2 " .....Gwasanaeth a Dwy Bregeth.
" " 6 " .....Gwasanaeth a Dwy Bregeth.

Dalier sylw fod y Pwyllgor yn cael ei wneud i fynu o weinidogion pob eglwys sydd yn casglu at y Gymdeithas, un cynrychiolydd oddiwrth bob un o'r eglwysi hyny, yn gystal a chyfranwyr o 2/6 ac uchod. Os am ddwyn unrhyw fater ger bron y Pwyllgor, ymoheber ar unwaith â'r Ysgrifenydd. Cesglir fel arfer yn yr holl gyfarfodydd. Manylion pellach yn ein nesaf.

T. ARTHUR THOMAS, Ysgrifenydd.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR. THOMAS & BROS., Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH,

FLORIST AND SEEDSMAN,

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Economy and Refinement applied to everything for the Furnishing and equipment of the Home.

Catalogue, Estimates or Special Designs, Free of Charge.

INTERIOR DECORATING
a Speciality.

Ben. Evans & Co.
SWANSEA. LTD.